# Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru Adroddiad Cynhadledd: Adfer Natur yng Nghymru

## Prifysgol Bangor
## 7fed-8fed Medi 2016



PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU
WALES BIODIVERSITY PARTNERSHIP

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

**Cyfoeth Naturiol** Cymru
**Natural Resources** Wales

# Cynnwys

Cynnwys ..... 2
Diwrnod 1: Sesiwn y Bore ..... 5
Cyflwyniad - Cadeirydd: Matthew Quinn, Llywodraeth Cymru ..... 5
Golwg Ffres ar Adfer Natur:  Andy Middleton, Aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ..... 5
Cyflawni dros Fioamrywiaeth o dan y fframwaith cyfreithiol newydd yng Nghymru: Matthew Quinn, Cyfarwyddwr, Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru ..... 5
Egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: ..... 6
SoNaRR: Sylfaen o dystiolaeth yn sail i NNRP a Datganiadau Ardal:  Dr Sarah Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Emily Finney, Llywodraeth Cymru ..... 7
Y Cynllun Adfer Natur – dod â'r chwaraewyr allweddol at ei gilydd:  Dai Harris, Llywodraeth Cymru ..... 8
Caru Gwenyn / Bee Friendly – Creu bwrlwm yn y genedl:  Bleddyn Lake, Cyfeillion y Ddaear Cymru ..... 8
Trafodaeth banel a thrafodaeth agored i'r llawr ..... 9
Diwrnod 1: Sesiwn y Prynhawn ..... 13
Fforwm Trafod: Tuag at Fframwaith Monitro Cyfoeth Naturiol Cenedlaethol.  Dr Catherine Duigan, Cyfoeth Naturiol Cymru ..... 13
Fforwm Trafod: Prosiect Adfer Bele'r Coed Ymddiriedolaeth Natur Vincent.  Henry Schofield, Ymddiriedolaeth Natur Vincent ..... 14
Fforwm Trafod: Pori yn Rhagori.  Dick Squires ac Emma Douglas, PONT Cymru ..... 15
Fforwm Trafod: Prosiectau Cadwraethwyr Morol mewn Partneriaeth.  Sue Burton, Ardal Cadwraeth Forol Arbennig Sir Benfro ..... 15
Gweithdy: Adfer Coetiroedd Hynafol – Theori ac Ymarfer.  Nigel Douglas a Kylie Mattock Jones, Ymddiriedolaeth y Coetiroedd. ..... 16
Gweithdy: SoNaRR: Sylfaen o Dystiolaeth yn sail i'r NNRP a Datganiadau Ardal. Dr Sarah Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Emily Finney, Llywodraeth Cymru ..... 19
Gweithdy: Caru Gwenyn / Bee Friendly – Creu bwrlwm yn y genedl.  Bleddyn Lake, Cyfeillion y Ddaear Cymru ..... 19
Y cwestiynau a ofynnwyd i'r gweithgorau: ..... 19
Gweithdy: Tystiolaeth ar gyfer Rhoi'r Cynllun Adfer Natur Ar Waith.  Helen Wilkinson a Barnaby Letheren, Cyfoeth Naturiol Cymru ..... 21
Gofynion Lefel Uchel ..... 21
Pwyso a Mesur (crynodeb o'r adnoddau mae'r rhanddeiliaid yn yr ystafell yn eu defnyddio ar hyn o bryd) ..... 22
Materion ..... 22
Ar gyfer pwy mae - crynodeb cyflym i randdeiliaid (a safbwyntiau teilwredig enghreifftiol) ..... 24
Ymarferwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ..... 24

Dylanwadwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ........ 24
Addysg ........ 24
Cofnodwyr Gwirfoddol ........ 24
Chwaraewyr gemau – ardal gemau ........ 24
Busnesau ........ 24
Y Camau Nesaf ........ 24
Trip Maes: Cors Erddreiniog.  Justin Hanson, Cyfoeth Naturiol Cymru ........ 25
Diwrnod 2: Sesiwn y Bore ........ 26
Cadeirydd: Andy Middleton, Aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru - "Rydyn ni yn hyn gyda'n gilydd" ........ 26
Datrysiadau Anarferol a Chyfeillion Defnyddiol: Matthew Roberts, Cyfarwyddwr y Strategaeth Cynaliadwyedd, Interserve plc ........ 26
Bioamrywiaeth – Dim Colled Net ar Raglen y Gorllewin:  Claire Sweeney, Network Rail ........ 27
*WaterSource*: Gwarchod ein dŵr yfed nawr ac am flynyddoedd i ddod:  Phillippa Pearson, Dŵr Cymru/Welsh Water ........ 28
Manteisio i'r eithaf ar gyfraniad bioamrywiaeth at lesiant Cymru:  Mike Palmer, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ........ 29
Trafodaeth banel a thrafodaeth agored i'r llawr ........ 30
Diwrnod 2: Sesiwn y Prynhawn ........ 36
Cyhoeddiadau: ........ 36
Cyfraniad seilwaith gwyrdd at lesiant Cymru:  James Byrne, Ymddiriedolaethau Natur Cymru ........ 36
Anerchiad Cloi:  Andy Middleton ........ 37
Bywgraffiadau'r Siaradwyr ........ 39
Andy Middleton ........ 39
Barnaby Letheren ........ 39
Bleddyn Lake ........ 39
Catherine Duigan ........ 39
Claire Sweeney ........ 40
Dai Harris ........ 40
Dick Squires ........ 40
Emma Douglas ........ 40
Emmanuel Deschamps ........ 40
Emily Finney ........ 40
Helen Wilkinson ........ 40
Henry Schofield ........ 41
James Byrne ........ 41

Kylie Jones Mattock ........................................................................ 41
Matthew Quinn ........................................................................ 41
Matthew Roberts ........................................................................ 42
Mike Palmer ........................................................................ 42
Nigel Douglas ........................................................................ 42
Phillippa Pearson ........................................................................ 43
Sarah Williams ........................................................................ 43
Sue Burton ........................................................................ 43
Rhestr o’r Cynadleddwyr Cofrestredig ........................................................................ 44
Rhestr o Arddangoswyr ........................................................................ 48

# Diwrnod 1: Sesiwn y Bore

### Cyflwyniad - Cadeirydd: Matthew Quinn, Llywodraeth Cymru

Croesawodd Matthew Quinn bawb i'r gynhadledd. Rydym mewn cyfnod ansicr, ond mae hyn hefyd yn cynnig cyfleoedd i fod yn greadigol. Bydd diwrnod cyntaf y gynhadledd yn canolbwyntio ar y polisi Cyfoeth Naturiol Cenedlaethol a'r Cynllun Adfer Natur. Bydd Diwrnod 2 yn edrych ar ymgysylltu ehangach a bydd cyfle i sgwrsio a gwrando ar y chwaraewyr "eraill".

### Golwg Ffres ar Adfer Natur:
### Andy Middleton, Aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru




Agorodd Andy ei gyflwyniad gyda datganiad dadleuol nad yw natur angen ein help ni i adfer ... bydd yn gwneud hynny ei hun. Y cyswllt rydym ni wedi methu ei wneud yw sut gallem wneud pethau mewn ffordd wahanol. O safbwynt CNC, mae dyhead enfawr i fynd i'r cyfeiriad iawn, ond mewn ffordd wahanol.

Dylai natur fod wrth galon pob penderfyniad a wneir, fodd bynnag yr eironi yw nad ydi'r bobl sy'n poeni amdani fwyaf, o angenrheidrwydd, yn dda iawn ym maes marchnata, gwerthiant a busnes. Y flwyddyn nesaf, byddai'n wych dod â phobl at ei gilydd sydd â chymhelliant amrywiol i gyflawni'r un canlyniadau. Nid yw tystiolaeth ar ei phen ei hun yn ddigon ac mae'n rhaid gweithredu. Gellir cyflawni newidiadau mewn ymddygiad os oes gennym ni ddigon o uchelgais, gan arwain at welliannau. Mae'n rhaid i ni ddod o hyd i'r bobl briodol sydd â chyswllt â llawer o bobl eraill i gynyddu'r negeseuon cadarnhaol. Mae 200,000 o fusnesau yng Nghymru – a yw'n rhesymol cysylltu â 20,000 ohonynt a'u cael i wneud deg peth a ddylai gael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth? Beth ddylai fod ar y rhestr? Rhaid cydweithio a chydweithredu.

Nid cyllid yw'r broblem o angenrheidrwydd, dychymyg sydd ei angen i gau'r bwlch. Os edrychwch chi ar gostau iechyd meddwl, gellid lleihau'r rhain drwy fynd â phobl at fyd natur i syrthio mewn cariad ag ef.

Brexit – mae yma, rhaid gwneud y gorau ohono. I gloi, pwysleisiodd Andy bod rhaid i ni roi'r gorau i feddwl "nad oes gennym ni ddigon o adnoddau". Mae'n rhaid i ni gael uchelgais, i werthu ein stori, dod o hyd i atebion ac wedyn gweithredu.

*Dolen i'r cyflwyniad*

### Cyflawni dros Fioamrywiaeth o dan y fframwaith cyfreithiol newydd yng Nghymru: Matthew Quinn, Cyfarwyddwr, Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru

Rydym mewn cyfnod allweddol a chyffrous gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd yn dod i rym.




Mae’r deddfau newydd yn ein herio ni i weithio’n wahanol ac, wrth gwrs, mae’n rhaid i ni ystyried gadael yr Undeb Ewropeaidd. Does dim sicrwydd bellach – mae’n eithaf brawychus, yn llawn risg, yn rymusol, yn frys ac yn hyfyw, ond mae’n gyfle gwych ac rydym yn barod amdano.

Gwahoddodd Matthew ni i ganolbwyntio ar ffyrdd o weithio, gyda phwyslais ar y sector cyhoeddus, sy’n gyfrifol yn awr am nodau llesiant. Mae deddfwriaeth flaenorol wedi trin pethau ar wahân, gyda thueddiad i weithio’n unigol. Mae iechyd, busnes a chyllid allan o drefn, heb berfformio cystal ag y byddem yn ei hoffi.

**Egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol:**
*Tymor hir ac ataliol*
Ar hyn o bryd rydym yn cael ein gwthio at liniaru ar y gorau. Mae’r cysyniad o ymwrthedd yn ymgais i herio hynny a dylent anelu am y tymor hir. Sut mae gwneud i hyn ddigwydd? Mae’n ymwneud ag edrych ar y cyfan.

*Cynnwys/ymgysylltu*
Mae’r byd gwleidyddol yn meddwl am hyn nawr. Nid ydym wedi cynnwys pobl mewn gwirionedd mewn unrhyw rai o’r trafodaethau yma hyd yn hyn. Mae’n rhaid i ni greu’r gofod yma. Dyma pam mae gennym ni Ddatganiadau Ardal, i gael trafodaeth lle nad oes trafodaeth nawr. Un o’r gwersi o’r treialon ardal yw siarad gyda phobl yn gyntaf.

*Cydweithredu*
Rhaid i ni siarad gyda’r sefydliadau nad ydym eisiau siarad â nhw.

*Integreiddio*
Rhaid i ni ddeall systemau a’r gadwyn gyflenwi lawn. Mae hyn yn cynnwys siarad gyda phobl a gwahanol bobl. Ar Brexit, mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i wahodd pobl ar draws y sectorau i gael cynrychiolaeth gyfartal mewn gweithdai. Os byddwch yn dileu’r rheolau, fe welwch chi fod gennym ni lawer y gallwn gytuno arno. Risg Brexit yw os nad oes gennym ni weledigaeth gyffredin. Mae’n hanfodol bod Cymru’n cael y drafodaeth yma. Er enghraifft, rydym yn ceisio newid sut mae Llywodraeth Cymru’n delio â grantiau. Mae rhyw ‘gêm’ yn digwydd gyda chynlluniau grantiau, gan lenwi’r ffurflenni i weld beth mae Llywodraeth Cymru eisiau ei glywed. Nawr mae Llywodraeth Cymru yn dweud “rydych chi’n gwybod yn well beth rydych chi eisiau ei wneud, dywedwch wrthym beth ydych chi eisiau ei wneud ac fe fyddwn ni’n eich helpu chi”. Dyma beth rydym yn ceisio ei wneud gyda chyllid craidd a’r Gronfa Natur. Mae hyn yn creu gofod i bobl feddwl am y pethau na fyddent yn meddwl amdanynt fel rheol.

Ar ôl sioc Brexit, mae gennym ddiddordeb mawr mewn sut bydd pethau’n datblygu. Yn hanesyddol, efallai nad ydym yn dda am gael gweledigaeth gyffredin ar gyfer Cymru. Mae risgiau ond gellir edrych ar y rhain fel cyfleoedd yn awr.

### SoNaRR: Sylfaen o dystiolaeth yn sail i NNRP a Datganiadau Ardal: Dr Sarah Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Emily Finney, Llywodraeth Cymru

SoNaRR, yr Adroddiad ar Gyflwr Cyfoeth Naturiol, yw cynnyrch cyntaf Deddf yr Amgylchedd. Bydd yr adroddiad yn cael ei ddefnyddio at sawl pwrpas ac mae'n




bwysig iawn i Lywodraeth Cymru fel sail i bolisïau a strategaethau, er enghraifft, y Polisi Cyfoeth Naturiol Cenedlaethol (NNRP). Bydd rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddefnyddio tystiolaeth yr adroddiad. Mae'n sylfaen dystiolaeth i ni i gyd ei mabwysiadu a'i defnyddio i sbarduno gweithredu. Bydd NNRP wedi cael ei gyhoeddi erbyn mis Mawrth a rhwng 2017 a 2019, bydd CNC yn datblygu Datganiadau Ardal. Fodd bynnag, dim ond drwy siarad gyda phobl y byddwn yn ailddatblygu'r consensws i ddechrau sgyrsiau newydd am y perthnasedd i lesiant.




Mae SoNaRR yn diffinio cyfoeth naturiol (ac eithrio pobl). Mae'n asesiad o fioamrywiaeth ar bob lefel. Mae'r meini prawf ar gyfer Deddf yr Amgylchedd Adran 7 (rhestr o'r organebau byw a'r mathau o gynefinoedd sydd, yn eu barn hwy, o bwysigrwydd mawr at bwrpas cynnal a gwella bioamrywiaeth mewn perthynas â Chymru) yn cael eu hystyried yn ofalus ar hyn o bryd a bydd ymgynghori arnynt yn nes ymlaen eleni.

Rydym yn mynd at wraidd beth sy'n atal gweithredu. SoNaRR yw asesiad CNC o i ba raddau mae rheolaeth gynaliadwy ar gyfoeth naturiol yn cael ei chyflawni. Mae'n cydnabod bod bylchau ac ansicrwydd.

- A ydym yn rheoli mewn ffordd nad yw'n arwain at ddirywiad tymor hir?
- Ble ddylai ffocws y gweithredu fod?
- Pam?
- Sut mae'r gwasanaethau ecosystemau sy'n cael eu darparu'n cyfrannu at ein llesiant?

Dyma'r SoNaRR cyntaf. Mae CNC wedi cael ei herio i ddangos ble mae'r risgiau i lesiant. Bydd y SoNaRR yn cynnwys cyfeiriadau gofodol.

Dylid edrych ar bob risg fel cyfle i newid, rydym yn newid y gêm i feddwl yn wahanol. Mae SoNaRR yn ailadroddol – rydym ar ddechrau'r siwrnai a'r sgwrs.

*Dolen i'r cyflwyniad – Sarah Williams*

*Dolen i'r cyflwyniad – Emily Finney*

### Y Cynllun Adfer Natur – dod â’r chwaraewyr allweddol at ei gilydd: Dai Harris, Llywodraeth Cymru

Gosododd Dai y cyd-destun ar gyfer gweddill y diwrnod, gyda ffocws arbennig ar y ‘camau nesaf’ a sut gallwn ein trefnu ein hunain yn fwy effeithiol.




Mae llawer o randdeiliaid wedi ymwneud â’r Cynllun Adfer Natur. Mae wedi cael ei ddatblygu yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth a ddaeth i rym yng Nghymru ar y pryd, yn benodol y Ddeddf Llesiant a Deddf yr Amgylchedd. Mae gwaith yn parhau i adnabod dangosyddion a fydd yn galluogi i ni farnu i ba raddau y mae wedi cyflawni’i nodau. Dim ond un sbardun i newid yw pwysau ar ddefnydd tir ac mae ymwybyddiaeth yn her allweddol, yn enwedig diffyg gwerthfawrogiad o werth bioamrywiaeth a’i phwysigrwydd i economeg a llesiant ehangach.

Ailbwysleisiodd Dai yr angen am ganolbwyntio ein hymdrechion ar y rhai ‘y tu allan i’r ystafell yma’. Yn ogystal â chyrraedd nod ‘Cymru gydnerth’ y Ddeddf Llesiant, a thargedau’r UE ar gyfer atal neu wyrdroi dirywiad bioamrywiaeth, mae’n rhaid i ni gyfathrebu gwerth bioamrywiaeth i’r economi ac i lesiant ehangach. Cyflwynodd Dai nodau amcanion allweddol y cynllun, oedd yn cynnwys y canlynol:

- diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o bwysigrwydd mawr a gwella’r rheolaeth arnynt
- mynd i’r afael â phwysau allweddol
- gwella tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro.

Ar ôl edrych ar y camau nesaf a sut roeddent yn gobeithio y byddai o help i ganolbwyntio arbenigedd a chryfhau’r llywodraeth yn y dyfodol, daeth Dai â’i gyflwyniad i ben drwy dynnu sylw at rai cyfleoedd posib sy’n codi o ddeddfwriaeth ddiweddar Cymru a Brexit, pwysigrwydd cynnal partneriaethau effeithiol, a rôl NRP mewn ‘dod â chwaraewyr allweddol at ei gilydd’.

*Dolen i’r cyflwyniad*

### Caru Gwenyn / Bee Friendly – Creu bwrlwm yn y genedl: Bleddyn Lake, Cyfeillion y Ddaear Cymru




Agorodd Bleddyn ei gyflwyniad drwy gyhoeddi lansiad menter newydd yng Nghymru o’r enw Caru Gwenyn, i geisio annog pobl i helpu peillwyr drwy gael cymunedau a sefydliadau i fod yn gyfeillgar i beillwyr.

Yn 2013, lansiwyd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Peillwyr yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru a’i nod yw gwyrdroi dirywiad peillwyr, gyda’r Tasglu Peillwyr wedi’i sefydlu i roi’r

cynllun ar waith. Mae grwpiau amrywiol sy'n gweithio gyda'r tasglu'n canolbwyntio ar feysydd fel Rheoli Ymylon Ffyrdd, Glastir, Gwenyn Cynaliadwy, Garddio er lles Bywyd Gwyllt, Tystiolaeth a Monitro, Prosiect COBWEB.

Astudiwyd sut i gael cymunedau i weithredu a chymryd rhan, a sut i'w hysbrydoli i helpu peillwyr, drwy edrych ar y cysyniad o sut datblygwyd Trefi Masnach Deg gan y cynllun Masnach Deg, i weld a fyddai posib sicrhau'r un peth ar gyfer trefi Cyfeillgar i Wenyn.

Mae'r fenter Caru Gwenyn eisiau cael mwy o bobl i ymwneud â gwneud mwy dros beillwyr, byd natur a bioamrywiaeth, gyda chynllun syml, hawdd a hwyliog sydd hefyd yn helpu peillwyr. Er enghraifft, gallai grŵp cymunedol fod yn grŵp Caru Gwenyn gyda Hyrwyddwr penodol i helpu'r grŵp, a byddai'n gorfod cwblhau o leiaf un dasg o'i ddewis o blith ein pedwar pennawd blaenoriaeth:

- Bwyd – darparu ffynonellau bwyd cyfeillgar i beillwyr
- Llety Pum Seren – darparu llefydd i beillwyr fyw
- Hwyl – cynnwys y gymuned gyfan a dweud wrth bobl pam maent yn helpu peillwyr
- Rhydd o blaladdwyr a chwynladdwyr – ymrwymo i beidio â defnyddio cemegau sy'n niweidio peillwyr

Ar ôl cael statws Caru Gwenyn, gallai'r grŵp ei hybu ei hun fel grŵp o'r fath ac, os oes digon o ardaloedd eisiau cymryd rhan, pwy a ŵyr, efallai y gallai Cymru fod y wlad Caru Gwenyn gyntaf yn y byd.

*Dolen i'r cyflwyniad*

### Trafodaeth banel a thrafodaeth agored i'r llawr

*Aelodau'r Panel*

*Cadeirydd:* Matthew Quinn (MQ), Llywodraeth Cymru
Andy Middleton (AM), Aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru
Sarah Williams (SW), Cyfoeth Naturiol Cymru
Emily Finney (EF), Llywodraeth Cymru
Dai Harris (DH), Llywodraeth Cymru
Bleddyn Lake (BL), Cyfeillion y Ddaear Cymru

*Cwestiwn 1: Clare Reed, Cymdeithas Cadwraeth Forol*
*Roeddech chi'n sôn am bwysigrwydd SoNaRR o ran chwilio am fylchau ac ansicrwydd mewn data. Ydi CNC a Llywodraeth Cymru wedi meddwl rhywfaint am gynllunio sut i lenwi'r bylchau hynny?*

(EF) Mae SoNaRR yn benodol iawn am fynd ati i ddatgan y bylchau a'r ansicrwydd yn y dystiolaeth honno, ac rydym yn glir iawn bod rhaid i ni gael sgyrsiau i gydweithredu a blaenoriaethu gyda'n gilydd pa rai o'r bylchau hynny sydd angen gweithredu yn eu cylch a rhoi sylw iddynt. Dyna'r cam nesaf.

*Cwestiwn 2: Paul Brazier, CNC*
*Yn SoNaRR roedd asesu llesiant yn erbyn ecosystem neu gynefin yn caniatáu Cymru gyfrifol yn fyd-eang. Sut gallwn ni roi sylw i'r angen am allu dylanwadu ar ddeddfwriaeth y tu allan i Gymru i weithredu pethau fel rheoli plaladdwyr?*

(EF) Rydym yn rhoi sylw penodol i hyn mewn adran yn SoNaRR.

(AM) Y peth arall sy'n allweddol am blaladdwyr yw cydnabod y pŵer sydd gennym ni fel defnyddwyr. Bob tro rydych chi'n prynu eitem o ddillad y mae posib ei gwneud yn organig, gofynnwch a oes ganddynt fersiwn organig, ac os bydd digon o bobl yn dechrau gwneud hynny, bydd pobl sy'n gwneud pethau'n dechrau'r ymgyrch dros newid. Ond heb bwysau gan ddefnyddwyr i newid ymddygiad, ni fydd cymhelliant i'r llywodraeth geisio gwneud hynny. Rhaid credu yn y pŵer sydd gennym ni: oni bai ein bod yn rhan o'r newid hwnnw, nid yw mor debygol o ddigwydd.

(MQ) Un o'r problemau i'r sector cyhoeddus yw pŵer caffael. Nid ydym yn defnyddio caffael ddigon fel buddsoddiad, sy'n bŵer enfawr mewn pwrcasu.

*Cwestiwn 3: Anna Williams, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru*
*Cyfeiriwyd at Andy Middleton. Mae pobl yn gwneud yr hyn rydych chi'n siarad amdano. Rydw i'n ysbrydoli ac yn cefnogi ysgolion i greu gerddi ar gyfer bywyd gwyllt. Yn yr oes economaidd sydd ohoni, mae'n anodd dod o hyd i arian ac rydw i'n treulio llawer iawn o amser yn chwilio am arian. Sut mae cysylltu'n genedlaethol? Ble mae'r gefnogaeth i brosiectau neu bobl oherwydd, ym myd addysg, mae cost yn mynd i fod bob amser?*

(AM) Dydw i ddim yn meddwl bod unrhyw siawns o gael mwy o arian gan CNC. Mae cymaint o arian yn y system, ond mae'n mynd i'r llefydd anghywir. Ein nod ni yw defnyddio meddylfryd mentrus i roi'r arian ar gyfer gerddi ysgolion yn nwylo'r ysgolion e.e. os gallwch chi arbed arian ar ynni, byddwn yn rhoi rhywfaint o'r arian hwnnw yn ôl i chi i'w wario ar beth rydych chi eisiau. Byddai swm yr arian sy'n cael ei wastraffu ar beidio rhannu lifft i'r ysgol yn talu am ardd mewn wythnos, mae cymaint o arian ond dydyn ni ddim yn chwilio amdano yn y llefydd iawn nac yn galluogi i bobl ei ddefnyddio. Yr ail bwynt yw creu geiriadur rywsut o bethau sy'n gweithio fel ein bod ni'n gallu torri a gludo, heb orfod ailddyfeisio. Sut mae creu'r gwyddoniadur hwnnw o bosibilrwydd, sy'n cyfateb i archfarchnad o syniadau da? Mewn ysgolion, dylem roi mynediad i blant a rhieni'n benodol i'r llefydd ble mae arian yn cael ei wastraffu, i'w helpu i gyllido gwelliannau a'u rhoi ar waith.

(MQ) Dyma rai o fy meddyliau i ar ôl siarad am y grant cyllid craidd - dydi popeth ddim yn gallu cael ei gyllido a'i gynnal. Rydw i'n gobeithio y gallwn ni wneud y cysylltiad yma gydag iechyd. Mae swm yr arian yn y gwasanaeth iechyd yn ei ffurfiau amrywiol yn enfawr. Gellid gwario cyfran fechan iawn o'r gyllideb presgripsiwn ar gyfer problemau iechyd meddwl a chorfforol ar helpu pobl i gysylltu â natur. Mae angen deall beth mae'r GIG ei angen i wneud i hyn weithio, gyda rhyw fath o broses o ddilysu neu achredu efallai? Mae Ruth Hall yn LlC yn gweithio yng nghanolbarth Cymru yn dod â phartneriaid at ei gilydd, yn gwneud cysylltiadau ar draws sectorau, yn ffurfio dolenni ymarferol, ac yn gwneud iddyn nhw ddod ag arian gyda nhw.

(AM) Os gallwch chi gael plant ifanc i werthfawrogi natur a gwella eu systemau imiwnedd a’u hiechyd a’u lles, chwiliwch am ffordd o gyllido hynny. Rydw i’n gwybod bod LlC yn awyddus i wneud i hyn weithio.

(Anna Williams) Dyma ble nad oes meddwl unedig yn bodoli rhwng adrannau?

(MQ) Mae’r drafodaeth yma yn digwydd.

*Cwestiwn 4: Howard Davies, Aelod Bwrdd CNC*
*Ydyn ni yng Nghymru’n gweithio’n ddigon agos gyda sefydliadau fel y New Economics Foundation? Os nad ydyn ni, rydyn ni’n colli cyfleoedd neu ydych chi’n meddwl hynny?*

(BL) Na. Byddai person o Gyfeillion y Ddaear yn hoffi ffordd wahanol o feddwl am economeg. Dydw i ddim yn gwybod beth ydi’r cyfleoedd yng Nghymru, sut byddai’r ddeialog yma’n digwydd a beth fyddai’r canlyniad o gymharu â’r hyn yr hoffem iddo fod, ond mae angen cynnal sgyrsiau. Mae angen ffordd wahanol o feddwl am economeg a’r ffordd ymlaen.

(MQ) Yng nghyd-destun Brexit, mae’n rhaid i ni feddwl yn galed am y model economaidd ar gyfer Cymru. Mewn gwirionedd, rydyn ni dal yn meddwl ym model 1964 - ‘Cymru yw’r Ffordd Ymlaen’! Rydyn ni’n bwriadu cael cyfres o strategaethau’n sail i’r rhaglen lywodraethu nesaf yn seiliedig ar themâu a ddaeth drwy’r maniffesto. Mae’r holl synnwyr o ‘beth ydi ystyr ffyniant i ni?’ a ‘beth mae hynny’n ei awgrymu ar gyfer y cysylltiadau?’ yn ddarn o waith rydyn ni’n mynd i fod yn ei wneud yn LlC, mewn ffordd eang a chynhwysol gobeithio.

(EF) O fy mhersbectif i, rydw i wedi derbyn y gwaith sydd wedi’i wneud gan y New Economic Foundation ar yr economi werdd/las ac rydw i wedi bod yn ei wthio i gyfeiriad sawl cydweithiwr morol, ac yn allanol, ac mae’n ffordd gyffrous a phwerus o edrych ar gyfraniad y rhyngweithio rhwng y môr a’r tir.

(DH) Fel sector rydyn ni wedi bod yn wael am fesur a mynegi gwerth byd natur yn economaidd a’i werth i gymdeithas. Fe wnaethon ni ddechrau siarad am ddatblygu mentrau ar gyfer talu am wasanaethau ecosystemau, a chynnwys busnesau a chael buddiolwyr i dalu am hyn. Mae’n rhaid i ni fod yn llawer mwy effeithlon o ran sut rydyn ni’n ymgymryd â hynny ac yn gwerthu’n hunain.

(AM) Does gan y New Economic Foundation ddim pobl ar y tir mewn ysgolion a chymunedau ac mae hwn yn gyfle enfawr i ni ddweud “Ydi hyn yn gweithio?” gyda’r grwpiau a’r sefydliadau busnes amrywiol allan yna. Fy nghynnig i iddyn nhw ydi: gadewch i ni ddefnyddio Cymru fel gofod prototeip i’r byd ar gyfer sut i greu newid ar raddfa genedlaethol.

(BL) Gwyro oddi wrth fyd natur at ynni - fe gyfrodd Cyfeillion y Ddaear ffigurau sylfaenol am faint o arian sy’n gadael Cymru gyda’r Chwe Mawr mewn cwmnïau ynni. Yn seiliedig ar filiau trydan a nwy cyfartalog, mae’r swm tua £2 biliwn. Pe bai gennym ni system wahanol ar gyfer ynni ac yn mynd ati i hybu ynni fel maen nhw’n ei wneud mewn gwledydd fel yr Almaen, gallai cyfran sylweddol o’r arian yma fod yn

cylchredeg yn economi Cymru. Byddai hynny'n creu llawer o swyddi newydd a byddai mwy o arian ar gael ar gyfer pethau eraill sydd o ddiddordeb i ni i gyd. Mae'n dibynnu sut rydyn ni'n edrych ar ynni a faint o bŵer sydd gennym ni dros y gwahanol fecanwaith rydyn ni ei angen. Mae hyn yn dibynnu ar gwestiwn gwleidyddol am ddatganoli a mwy o bwerau.

(MQ) Gellir cysylltu hyn ag eco-ysgolion. Mae'n rhaid i ni ddefnyddio arfer gorau a chyllido hynny, yn hytrach na dim ond pethau newydd.

*Cwestiwn 5: Elizabeth Mutch, Llais y Goedwig*
*Mae fy nghwestiwn i am draws gyfathrebu â sectorau eraill. Oes cyfathrebu gydag addysg, oherwydd mae pobl sydd eisiau gweithio gydag addysg a sefydliadau, ond dim ond os oes budd clir i'r ysgol oddi mewn i bolisi seiliedig ar gwricwlwm mae hynny'n gallu digwydd. Ydi hynny'n digwydd ar lefel uwch?*

(MQ) Ydi, ond nid ar y raddfa y dylai mae'n debyg. Mae'n debyg ein bod ni wedi ymgolli mewn ymwneud ag Eco-ysgolion fel ein prif gyfrifoldeb, ond mae ymgysylltu gyda gwaith adolygu'r cwricwlwm tu allan. Un wers ydi bod rhaid i ni ei gwneud yn haws i becynnu pethau sy'n berthnasol i'r cwricwlwm. Mae hon yn dasg fawr i unigolyn neu sefydliad bychan ymgymryd â hi ac yn faes y gallwn ni helpu ynddo o bosib. Mae gennym ni fwy o Eco-ysgolion nag unrhyw wlad arall.

(AM) Mae'r sgyrsiau rydyn ni'n eu cael yn rhan o broses araf ac mae'n rhaid iddo ddigwydd yn gyflymach. Rhaid dod o hyd i ychydig gannoedd o ysgolion i weithio gyda nhw. O ran cymryd arfer gorau a rhannu profiad yr eco-ysgolion, mae athrawon yn dweud bod plant sy'n hoffi dysgu'n cael gwell graddau ac yn cymryd mwy o ran. Mae gennym ni brosiectau gyda Phrifysgol Caergrawnt sy'n mynd â phlant at fusnesau i ddatrys problemau am adnoddau, gwastraff ac effaith, ac mae hwn yn gyfle da iawn. Gadewch i ni greu cyfeiriad unedig ar y cyd, fel nad oes llawer o brosiectau'n digwydd i gyfeiriadau gwahanol.

(BL) Rydyn ni wedi dechrau meddwl am hyn yn y tasglu peillwyr. Rydyn ni'n mynd i lawr y llwybr o ddatblygu adnodd addysgol dwyieithog newydd ar gyfer gwahanol lefelau addysgol yn yr ysgol, un ar gyfer ysgolion cynradd, un ar gyfer TGAU ac un ar gyfer Bagloriaeth Cymru, a fydd yn adnodd addysgol dwyieithog newydd i beillwyr - nid dim ond gwenyn, ond pob peilliwr. Rydyn ni wedi dechrau trafodaeth gyda'r tasglu peillwyr.

*Cwestiwn 6: Roy Tapping, Cofnod*
*Cyfeiriwyd at Matthew Quinn. Rydyn ni wedi siarad am gadernid mewn cynadleddau blaenorol. Rydw i'n gweld cadernid fel rhywbeth i gymryd lle cynaliadwyedd mewn sawl ffordd. Mae cadernid yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl, ac felly hefyd cynaliadwyedd. Rydyn ni eisiau gwasanaeth iechyd cadarn, economi gadarn, amgylchedd cadarn; rydych chi bob amser yn chwilio am gyfaddawd o ran cadernid. Oherwydd bod gennym ni'r holl ddeddfwriaeth newydd yma gyda llawer o symud ymlaen, pa mor bwerus ydych chi'n teimlo ydych chi, yn eich cyfarwyddiaeth, o gymharu â'r holl gyfarwyddiaethau eraill sy'n edrych ar gadernid mewn ffyrdd gwahanol o bosib?*

(MQ) Rydw i’n cytuno gyda chi bod cadernid yn derm cyfredol iawn. Os edrychwch chi ar academia, mae pob disgyblaeth yn edrych ar gadernid ac maen nhw i gyd yn siarad am rywbeth gwahanol. O ran y gyfraith, rydyn ni wedi datgan yn glir beth mae’n ei olygu yn y cyd-destun penodol yma ar gyfer natur. Mae cadernid yn system, yn hytrach na’r ymadroddion eraill rydyn ni’n eu defnyddio. Rydyn ni’n edrych ar systemau a sut maent yn gweithredu: dydyn ni ddim eisiau cyfaddawdu na bargeinio, rydyn ni’n edrych ar sut i gael y gorau o’r system er mwyn cael yr hyn rydym ei angen. Dydych chi ddim yn bargeinio gyda system, dim ond cael y gorau ohoni, a dyna rydyn ni’n ceisio ei wneud gyda’r gyfres yma o ddeddfwriaethau newydd.

(Roy Tapping) Oes gennych chi adnoddau deddfwriaethol ar gael i chi i ymladd y frwydr o ran cadernid?

(EF) Un o’r cyfleoedd sydd gennym ni gyda Deddf yr Amgylchedd, y Polisi Cyfoeth Naturiol a SoNaRR yw bod cadernid yn berthnasol ledled y llywodraeth gyfan. Mae polisïau ar gyfer cyfoeth naturiol yn cael eu rhoi ar waith ar draws yr holl gabinetau a’r gwahanol swyddogaethau yn y llywodraeth. Mae’r ffordd mae SoNaRR wedi cael ei lunio’n helpu’r drafodaeth am y gwahanol agweddau ar gadernid a beth maent yn ei olygu, a’r camau gweithredu y mae’n rhaid i ni eu rhoi ar waith fel bod yr holl wasanaethau a’r manteision yno – nid dim ond canolbwyntio ar, er enghraifft, cynhyrchu bwyd ar draul gwasanaethau eraill. Ond ffordd arall o fynegi hyn ydi: beth mae cadernid cymdeithasol ac economaidd yn ei olygu yn y cyd-destun hwnnw? Dyma gyfraniad cyfoeth naturiol at y nodau llesiant. Wedyn mae hynny’n dechrau mynegi pa gyfleoedd sydd i wahanol swyddogaethau, er enghraifft, addysg neu iechyd, i effeithio ar yr economi a chanfod atebion. Mae dogfen SoNaRR yn ceisio mynegi sut gallwch chi ddod â’r drafodaeth gyfan at ei gilydd.

(MQ) Mae’n her yn yr ystyr ein bod ni wedi cael ein cyflyru i weithio’n unigol. Mae’n ein herio ni i gyd i edrych ar ein cyfraniad ehangach, a dydi hynny ddim yn mynd i ddigwydd dros nos, ond mae’r fframwaith rydyn ni wedi’i greu, a’r gofod rydyn ni wedi’i greu, yn gyfle i ni wneud hynny. Yn y pen draw, ar gyfer y rhai nad ydynt yn ei wneud, mae’n rhaid i ni gosbi rhag cael ein gweld yn ddi-asgwrn cefn.

## Diwrnod 1: Sesiwn y Prynhawn

### Fforwm Trafod: Tuag at Fframwaith Monitro Cyfoeth Naturiol Cenedlaethol. Dr Catherine Duigan, Cyfoeth Naturiol Cymru

Mewn partneriaeth â James Skates, Llywodraeth Cymru, a’r Athro Bridget Emmett, Y Ganolfan ar gyfer Ecoleg a Hydroleg

Pwysleisiodd Catherine y bartneriaeth agos sy’n bodoli rhwng CNC, Llywodraeth Cymru a’r Ganolfan ar gyfer Ecoleg a Hydroleg. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn diffinio ‘cyfoeth naturiol’ yn eang iawn ac, o’r herwydd, mae’r ystod o bwysau mae’n ei wynebu yr un mor eang. Mae monitro’n allweddol er mwyn adrodd yn ôl ar raddfa, cyflwr a thueddiadau, yn ogystal ag er mwyn archwilio, datblygu systemau gwell, modelu, datblygu rhaglenni rheoli addasol, a dysgu. Roedd hwn yn gyfle i ddod ag adnoddau at ei gilydd i adlewyrchu ar bolisi unedig ar gyfer Rheolaeth Gynaliadwy ar Gyfoeth Naturiol (SMNR) drwy weithredu ar raddfa tirlun, gweithio

mewn partneriaeth, a gweithio fesul camau hefyd. Soniodd Catherine am rai o'r gweithgareddau hyd yma a sut mae'r sbardunau deddfwriaethol a pholisi (Cymru/Y DU/a rhyngwladol) a'r sylfeini tystiolaeth sydd ar gael yn gysylltiedig, cyn edrych ar rai astudiaethau achos; Gwyddoniaeth y Dinesydd, Data a Gwybodeg, ac eDNA. I gloi, rhoddodd Catherine ddisgrifiad o sut mae'r fframwaith yn edrych o bosib a chrynhodd gyda'r manteision a'r canlyniadau disgwyliedig. Roedd yr adroddiad terfynol yn cael ei lunio ac roedd disgwyl y byddai argymhellion allweddol yn cael eu cyflwyno i'r Gweinidog yn nes ymlaen y mis yma.

C – Pa mor hawdd ac eang fydd y wybodaeth ar gael?
A – Byddwn yn datblygu porthol neu'n adeiladu ar beth sydd gennym ni eisoes (Lle er enghraifft).

C – Beth sy'n digwydd os bydd rhywun eisiau herio'r data?
A – Dydyn ni ddim wedi cyrraedd y lefel yna o fanylder eto ond rydyn ni'n cydnabod yr angen am roi lle i herio a byddwn yn agored i drafodaethau. Fel bob amser, bydd yn bwysig deall cyfyngiadau unrhyw gyfres ddata a gweithredu'n seiliedig ar risg o ran hyder mewn data. Rhaid i'r gynulleidfa fod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau a deall yn benodol nad yw 'absenoldeb tystiolaeth yn golygu tystiolaeth o absenoldeb'.

C - 'Fyddwch chi'n defnyddio data o'r Canolfannau Cofnodi Lleol?
A – Byddwn!

C – Beth ydi'r amserlenni ar gyfer ehangu'r prosiect i gynnwys data morol?
A – Rydyn ni'n disgwyl i hyn fod yn anos ei gyflawni ac felly rydyn ni'n rhagweld treulio blwyddyn arall o leiaf yn canolbwyntio ar ddata am y tri, ond does dim rheswm i ni beidio â meddwl am hyn yn ystod y cyfnod yma.

C – Sut bydd yn bwydo i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus?
A – Byddwn yn ystyried hyn yn y gweithdy Datganiadau Ardal yr wythnos nesaf. Mae angen data ar gyfer Cymru gyfan ond mae'n rhaid i hynny gael ei fodelu/dehongli ac ati.

C – I ba raddau mae CNC yn manylu ar beth sy'n digwydd, pryd a sut? Faint sy'n cael ei fwydo i mewn gan sefydliadau anllywodraethol llai?
A – Nid prosiect gan CNC ydi hwn; mae'n bartneriaeth.

*Dolen i'r cyflwyniad*

## Fforwm Trafod: Prosiect Adfer Bele'r Coed Ymddiriedolaeth Natur Vincent. Henry Schofield, Ymddiriedolaeth Natur Vincent

Cyflwynodd Henry Schofield o Ymddiriedolaeth Natur Vincent ganlyniadau'r Prosiect Adfer Bele'r Coed, sy'n ceisio adfer poblogaethau hyfyw o fele'r coed yng Nghymru a Lloegr drwy drawsleoli bele'r coed o'r Alban. Arferai fod yn rhywogaeth eang yng Nghymru ond nawr mae'n gyfyngedig i'r Alban, gyda chofnodion achlysurol iawn o Gymru a Lloegr. Cyn dechrau ar unrhyw adleoli, roedd yn bwysig gweithio gyda chymunedau a rhanddeiliaid lleol ar ardaloedd rhyddhau posib, i sicrhau cefnogaeth

a dealltwriaeth. Hefyd cynhaliwyd arolygon maes ac asesiadau risg manwl (gan gynnwys dadansoddiad risg o afiechyd). Hyd yma, mae 40 bele'r coed wedi cael eu trawsleoli o'r Alban, dwy gangen o 20 o oedolion gyda chymhareb rhyw o 1:1. Bydd y canlyniadau'n cael eu gwerthuso cyn cynnal unrhyw ailgyflwyno pellach. Mae tracio gyda radio'n dangos dosbarthiad yr unigolion a gyflwynwyd. Mae tystiolaeth o rai bach yn cael ei geni (ond byddai'r rhain wedi cael eu cenhedlu cyn y trawsleoli).

*Dolen i'r cyflwyniad*

### Fforwm Trafod: Pori yn Rhagori.
### Dick Squires ac Emma Douglas, PONT Cymru

Pori Natur a Threftadaeth (PONT) yw'r sefydliad pori cadwraeth dielw ar gyfer Cymru. Mae pori cadwraeth yn adnodd amhrisiadwy ar gyfer rheoli ardaloedd sydd â chyfoeth o fyd natur, ond mae'n anos ei gyflawni oherwydd newidiadau amaethyddol ac economaidd. Rôl PONT yw pontio'r bwlch rhwng amaethyddiaeth a chadwraeth natur, hwyluso pori cadwraeth i greu manteision niferus i fywyd gwyllt, cyfoeth naturiol, amaethyddiaeth, cymunedau a'r Cynllun Adfer Natur.

Gwnaeth PONT gyflwyniad am bwysigrwydd pori cadwraeth, rôl PONT, ei weithgareddau a phrosiectau yn y gorffennol. Gwahoddwyd awgrymiadau ar gyfer cyfeiriad PONT yn y dyfodol. Cafwyd cwestiynau diddorol am bori cadwraeth, monitro a newid hinsawdd, a hefyd cyfraniad gwerthfawr gan gyfranogwyr gweithdy. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys ffynonellau cyllido yn y dyfodol (e.e. LEADER), pwysigrwydd cynnal preiddiau swmpus, a phori mewn blociau coedwigaeth. Gwnaed cysylltiadau pwysig ac ychwanegodd yr aelodau at grŵp cynghori PONT o ganlyniad i'r gweithdy.

*Dolen i'r cyflwyniad*

Dolen i fideo ar YouTube https://www.youtube.com/watch?v=ZTXUa0nQky8

### Fforwm Trafod: Prosiectau Cadwraethwyr Morol mewn Partneriaeth.
### Sue Burton, Ardal Cadwraeth Forol Arbennig Sir Benfro

Nod y sesiwn oedd 'chwifio'r faner' dros gadwraeth forol ac edrych ar sut roedd partneriaethau cydweithredol o fudd i amgylchedd morol Sir Benfro.

Mae cadwraeth forol yn delio â byd sydd 'allan o'r golwg, allan o'r meddwl' yn aml. Felly mae'n hynod bwysig dechrau dweud wrth bobl beth sydd allan yna a pham mae'n bwysig. Mae llawer o bwysau ar Sir Benfro, o borthladd prysur Aberdaugleddau i ddwysedd twristiaeth y Parc Cenedlaethol arfordirol a Llwybr yr Arfordir. Nid oes gan un corff unigol awdurdodaeth i reoli'r pwysau hwn ar ei ben ei hun felly mae partneriaethau'n hynod hanfodol i reoli'r ACA. Siaradodd Sue am bwysigrwydd ymddiriedolaeth, niwtraliaeth a hwyluso mewn cyswllt â rhanddeiliaid, a'r angen am addysg a chodi ymwybyddiaeth i ddangos manteision rheolaeth briodol. Mae Sue wedi ymwneud â nifer o brosiectau, gan gynnwys prosiect adfywio wystrys brodorol lle mae cynnwys pysgotwyr a deifwyr gwirfoddol wedi bod yn

bwysig, a Menter Pysgod Cregyn Cynaliadwy Sir Benfro, sy'n hybu dulliau pysgota cynaliadwy ac yn atal 'ysbryd bysgota'. Siaradodd hefyd am y Gwelliannau Morwellt yn nyfrffordd Aberdaugleddau, lle mae gweithio mewn partneriaeth wedi gallu goresgyn cysylltiadau gwael rhwng defnyddwyr cychod ac Awdurdod y Porthladd, ac annog mabwysiadu cod ymddygiad gwirfoddol. Clodd Sue ei chyflwyniad drwy bwysleisio bod partneriaethau'n gweithio a bod datblygiadau lleol yn sail i strategaethau cenedlaethol,. Roedd swyddogion penodol yn bwysig ac roedd niwtraliaeth yn gwbl allweddol i weithio gyda buddiannau amrywiol. Er bod arian yn brin, gallai partneriaeth wneud cais am ffrydiau cyllido na allai cyrff y llywodraeth geisio amdanynt.

C: Pa bartneriaethau sy'n gweithio ar hyd arfordir gogledd Cymru?
A: Dim ar hyn o bryd.

C: Wrth wneud cais am gyllid ydi hynny yn enw'r bartneriaeth neu Awdurdod y Porthladd?
A: Mae'n dibynnu ar y ffynhonnell a'r meini prawf penodol.

C: Gyda phryderon am gyllid tymor hir, mae'n rhaid bod ffyrdd o ddangos gwerth am arian y math yma o waith?
A: Dylai'r Ddeddf Llesiant fod yn allweddol i hyn; mae'n hawdd iawn clymu'r agweddau hamdden gyda'r nodau. Does gennym ni ddim arian craidd mawr. Rydyn ni'n dibynnu ar symiau llai gan nifer o bartneriaid. Mae CNC newydd dynnu ei gyfraniad yn ôl, sy'n bryderus. Dydi hynny ddim yn dangos esiampl dda.

*Dolen i'r cyflwyniad*

**Gweithdy: Adfer Coetiroedd Hynafol – Theori ac Ymarfer.**
**Nigel Douglas a Kylie Mattock Jones, Ymddiriedolaeth y Coetiroedd.**

Cymerodd deuddeg o'r cynadleddwyr ran yn y gweithdy 1.5 awr ar adfer coetiroedd hynafol.

*Cwis mynediad – Pa un yw'r Coetir Hynafol?*
Wrth i'r cynadleddwyr ddod i mewn i'r ystafell, cawsant wahoddiad i edrych ar chwe ffotograff o goetiroedd, ac i nodi eu blaenlythrennau ar y lluniau hynny oedd yn dangos coetiroedd hynafol yn eu barn nhw. Mae nifer y cynadleddwyr a ddewisodd bob llun wedi'u nodi isod o dan y lluniau:


10


12


8

  

Roedd y chwe llun yn dangos coetir hynafol. Cafodd y lluniau o Goetiroedd Lled-Naturiol Hynafol (chwith a chanol yn y top) eu hadnabod yn gywir gan fwyaf, ond roedd ardaloedd o goetir PAWS yn anos eu hadnabod. Esboniwyd y gwahaniaethau ar ddechrau'r cyflwyniad, i ddangos bod safleoedd coetiroedd hynafol yn gallu bod mewn sawl gwahanol ffurf ac yn gallu cynnwys gwahanol gyfnodau adfer, o blanhigfeydd conwydd trwchus i goetiroedd naturiol.

*Cyflwyniadau – Adfer Coetiroedd Hynafol: Theori ac Ymarferol*

Roedd **rhan gyntaf** y cyflwyniad (a wnaed gan Nigel) yn gyflwyniad i goetiroedd hynafol a theori adfer:

- Cyflwyniad i Coed Cadw / Ymddiriedolaeth y Coetiroedd a'r Prosiect Adfer Coetiroedd Hynafol
- Coetiroedd hynafol yn y DU, diffiniadau a graddfa
- Adnabod coetiroedd hynafol
- Pam adfer?
- Egwyddorion Adfer Coetiroedd Hynafol

Roedd yr **ail ran** (a gyflwynwyd gan Kylie) yn rhoi sylw i Adfer ar waith: astudiaethau achos o stad Coed Cadw:

- Cyflwyniad – coed Ymddiriedolaeth y Coetiroedd - Plas Power a Felinrhyd
- Asesiadau safle
- Adnabod gweddillion
- Adnabod bygythiadau
- Cymorth Cyntaf
- Camau nesaf
- Heriau



*Ymarfer*

Yn dilyn y cyflwyniadau, rhannwyd y cynadleddwyr yn dri grŵp ar gyfer ymarfer adfer. Cafodd pob grŵp 'sefyllfa' yn seiliedig ar astudiaeth achos bresennol o Goed Plas Power neu Felinrhyd (cafodd y cynadleddwyr wybod bod y rhain yn sefyllfaoedd o 'fywyd go iawn'). Roedd pob sefyllfa'n cynnwys disgrifiad, lluniau a map, a gofynnwyd i'r cynadleddwyr ystyried y cwestiynau:

- Beth yw eich nodweddion gweddillol?
- Beth yw'r prif fygythiadau?
- Rydych chi eisiau ei adfer: beth fyddai eich cam gweithredu cyntaf a pha mor frys ydyw?



- Beth fyddwch yn ei wneud nesaf tybed?
- Beth fyddai'r heriau o ran cyflawni eich amcanion?



Yng nghanol yr ymarfer, cafodd pob grŵp 'bêl dro': newid yn y sefyllfa a oedd yn gofyn iddynt ailfeddwl amdani yng ngoleuni'r wybodaeth newydd.

Ar ddiwedd yr ymarfer, gwahoddwyd un cynadleddwr o bob grŵp i drafod eu sefyllfa, a'u canfyddiadau. Cafwyd trafodaethau rhagorol yn ystod yr ymarfer. Roedd y grwpiau'n eithaf amrywiol; roedd un grŵp yn cynnwys pobl heb lawer o brofiad o goetiroedd ac roedd un arall yn cynnwys staff CNC sy'n gyfrifol am reoli coetiroedd, ond cafodd pawb ohonynt ddigon i gnoi cil arno ac roedd y 'peli tro' yn gyfle iddynt ymateb i sefyllfaoedd y gellid eu disgwyl yn realistig ar y tir.



Roedd yr adnabyddiaeth o nodweddion gweddillol a bygythiadau'n dda iawn yn gyffredinol, felly roedd gan y cynadleddwyr wybodaeth eisoes neu roeddent wedi bod yn gwrando'n dda yn ystod y cyflwyniadau! Cynhaliwyd trafodaethau rhagorol yn gysylltiedig â'r heriau o adfer coetiroedd hynafol, gydag ystyriaethau mynediad ac ariannol, gan gynnwys diffyg cyllid grant, yn cael eu nodi fel problemau arwyddocaol.

*Crynhoi a Negeseuon Allweddol*

- Yn gyffredinol, roedd yr ymwybyddiaeth o goetiroedd hynafol, a'r prosiect adfer, yn dda. Roedd y cynadleddwyr yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, CNC a Llais y Goedwig, a oedd yn gallu rhannu eu gwybodaeth gydag aelodau eraill y grŵp yn ystod yr ymarferion.
- Roedd rhai cynadleddwyr wedi synnu at gyn lleied o goetiroedd hynafol sydd ar ôl yng Nghymru a faint sydd wedi cael eu heffeithio gan blannu conwydd.
- Mae Ymddiriedolaeth y Coetiroedd yn rheoli ei gwarchodfeydd ei hun yn benodol gyda'r bwriad o adfer coetiroedd hynafol. Bydd gan berchnogion coetiroedd eraill eu cymhelliant eu hunain, gan gynnwys cymhelliant ariannol. Nid yw adfer yn broses 'un maint yn ffitio pawb' o angenrheidrwydd ond mae posib ei haddasu i fod yn addas i anghenion perchnogion.
- Trafodwyd diffyg cyllid ar adegau amrywiol fel rhwystr mawr i adfer coetiroedd hynafol.
- Roedd tanreolaeth ar yr holl goetiroedd hynafol (nid dim ond PAWS) yn cael ei chydnabod fel problem hefyd.

*Dolen i'r cyflwyniad (rhan 1)*

*Dolen i'r cyflwyniad (rhan 2)*

## Gweithdy: SoNaRR: Sylfaen o Dystiolaeth yn sail i'r NNRP a Datganiadau Ardal.
## Dr Sarah Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Emily Finney, Llywodraeth Cymru

Yn dilyn y trafodaethau gweithdy, mae fersiwn terfynol yr Adroddiad ar Gyflwr Cyfoeth Naturiol (SoNaRR) wedi cael ei gyhoeddi ac mae posib ei lawrlwytho yn awr o wefan Cyfoeth Naturiol Cymru: www.naturalresources.wales/sonarr. Mae crynodeb SoNaRR ar gael drwy ddilyn y ddolen yma neu'n uniongyrchol o: http://www.naturalresources.wales/media/679572/sonarr-summary-september-2016.pdf. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, os ydych yn dymuno rhoi adborth neu os oes gennych chi unrhyw syniadau ar gyfer gwella proses SoNaRR yn y dyfodol, anfonwch e-bost i: sonarr@naturalresourceswales.gov.uk.

*Dim Cyflwyniad*

## Gweithdy: Caru Gwenyn / Bee Friendly – Creu bwrlwm yn y genedl.
## Bleddyn Lake, Cyfeillion y Ddaear Cymru

**Y cwestiynau a ofynnwyd i'r gweithgorau:**
Sut yw'r ffordd orau o roi cyhoeddusrwydd i Caru Gwenyn / Bee Friendly?
Sut yw'r ffordd orau o ddefnyddio CG/BF?
Pa gefnogaeth arall ydyn ni ei hangen?
Beth ddylai rôl yr Hyrwyddwyr CG/BF fod?

*Sut yw'r ffordd orau o roi cyhoeddusrwydd i Caru Gwenyn / Bee Friendly?*

- Rhannu manylion tudalen newydd CG/BF ar Facebook gyda'r holl gynadleddwyr
- Anfon datganiad i'r wasg y lansiad at y cynadleddwyr
- Cymaint o sefydliadau â phosib i gael dolenni at CG/BF ar eu gwefannau eu hunain a rhannu negeseuon Facebook ar eu tudalennau Facebook eu hunain
- Cysylltu â rhaglenni teledu fel Coast and Country ar ITV ac Autumn Watch, Countryfile ac ati
- A fyddai gan Iolo Williams ddiddordeb mewn gwneud cyfres ar y cynlluniau amrywiol sy'n cymryd rhan y flwyddyn nesaf?
- Bob G i gysylltu ag Iwan Edwards yn S4C
- Neilltuo tasgau penodol i bobl (o ran cysylltu â'r cyfryngau)
- Pawb i grybwyll CG/BF wrth siarad â'r cyhoedd a grwpiau
- Defnyddio'r Ardd Fotaneg Genedlaethol i helpu gyda chyhoeddusrwydd
- Hysbysebion mewn cylchgronau garddwriaethol (er enghraifft)
- Drwy'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Cylchgrawn yr RHS
- Diffinio rhai cynulleidfaoedd targed (ee Eco-Ysgolion i helpu - cafodd hyn ei grybwyll sawl gwaith)
- Perchnogion tir bychain (ee grŵp Perchnogion Tir Cefn Gwlad, Undebau ac ati)
- Perchnogion tir (cynnyrch lleol) – drwy Siambr Fasnach o bosib
- Awdurdodau Lleol – creu 'ras i'r brig' gyda chyrff cyhoeddus eisiau bod y gorau
- Byrddau Iechyd Lleol
- Cynghorau Cymuned Lleol

- Busnesau – gweithio ar yr ongl ‘fe allwch chi fod y cyntaf’ (oes posib cael help heb fod yn ariannol gan fusnesau?)
- Defnyddio Thunderclap (mae llawer o wahanol sefydliadau’n defnyddio FB a Twitter ar yr un pryd â chyhoeddusrwydd)
- Defnyddio cyfryngau argraffu lleol gyda datganiadau i’r wasg
- Targedu busnesau cyfeillgar i wenyn eraill fel Perllannau Seidr a Pherai

*Sut yw’r ffordd orau o ddefnyddio CG/BF?*

- OPAL – y canlyniadau gorau wrth weithio drwy gymunedau
- Defnyddio adnodd rheoli/hyrwyddo i annog gweithredu e.e. rheoli ymylon ffyrdd
- Defnyddio fel Nod Barcud – ee – gallai CNC nodi ei holl swyddfeydd fel rhai Cyfeillgar i Wenyn (a’r un peth i swyddfeydd y Cynulliad?)
- Defnyddio CG/BF fel cyfrwng i annog a rhoi gwybod i ymgeiswyr am gynlluniau eraill fel y Faner Werdd, yr Allwedd Werdd, Meincnod Bioamrywiaeth. Hefyd efallai y gellir darbwyllo’r ymgeiswyr hyn yn eu tro i noddi CG/BF?

*Pa gefnogaeth arall ydyn ni ei hangen?*

- Gwefan newydd benodol i helpu i hybu’r cynllun gydag astudiaethau achos ac ati (cafodd hyn ei grybwyll sawl gwaith)
- Cyfrif Twitter
- Ffynhonnell o hadau a chyfarwyddiadau ar sut i’w defnyddio
- Cyngor arbenigol ar bethau fel stripio tyweirch yn erbyn defnyddio Glyffosad
- Creu tudalen newydd ar Facebook ar gyfer pethau fel Gwair Dôl i roi’r cyfranwyr mewn cysylltiad â derbynwyr
- Astudiaethau achos - beth sy’n gweithio orau ac ymhle (rôl i ’Cadwch Gymru’n Daclus’?)

*Beth ddylai rôl yr Hyrwyddwyr CG/BF fod?*

- Darparu cyngor a chefnogaeth
- Sut mae cael dyfarniad (ee ateb y cwestiwn ‘a fyddwn yn cael dyfarniad ai peidio?’)
- Darparu cefnogaeth dros y ffôn
- Bod y rhai i ddod ag astudiaethau achos yn fyw
- Cael Hyrwyddwyr o grwpiau targed ee athro a allai fod yn Hyrwyddwr ysgolion
- Dewis Hyrwyddwyr o’r mabwysiadwyr cynnar
- Dylai fod digon ohonynt i atal pobl rhag cael gormod o faich
- Gwybodaeth leol yn hanfodol
- Mae angen Hyrwyddwyr gydag ystod o wybodaeth a sgiliau i gymysgu gyda phrosiectau amrywiol
- Defnyddio gwahanol Hyrwyddwyr mewn tîm neu mewn cyfres yn ôl yr angen gan brosiect
- Angen hyfforddiant ar gyfer Hyrwyddwyr
- Rhaid i’r Hyrwyddwyr fod ar gael yn hwylus ble a phan mae eu hangen
- Holi gwahanol sefydliadau fel Cadwch Gymru’n Daclus a allai ddarparu neu helpu gydag adnabod Hyrwyddwyr
- Oes posib cael unrhyw Hyrwyddwyr enwog? Neu o leiaf eiriolwr enwog ar ran y cynllun?

[Dolen i'r cyflwyniad]()

## Gweithdy: Tystiolaeth ar gyfer Rhoi'r Cynllun Adfer Natur Ar Waith.
## Helen Wilkinson a Barnaby Letheren, Cyfoeth Naturiol Cymru

Nod y gweithdy hwn oedd mynd ati i ddeall beth mae cymuned PBC ei angen er mwyn helpu i wella'r ffordd mae tystiolaeth ar gael ar gyfer y Cynllun Adfer Natur; Rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (datganiadau ardal) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (cynlluniau llesiant ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus).




Yng nghyd-destun gweledigaeth PBC a ddrafftiwyd drwy gyfrwng Fforwm Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru, mae fel a ganlyn: *"Rhannu gwybodaeth amgylcheddol Cymru er lles yr amgylchedd a phobl Cymru, y DU ac yn fyd-eang".* Aeth y gweithdy ati i gasglu gwybodaeth o dan dri maes pwnc:

1. Gofynion lefel uchel
   (Sut beth yw llwyddiant? Beth rydych ei angen o systemau cyflwyno tystiolaeth?)

2. Pwyso a mesur
   (Beth sydd ar gael eisoes nawr?)

3. Pa mor agos ydyn ni?
   (Sut mae'r systemau presennol yn diwallu ein hanghenion? Ble mae'r gorgyffwrdd? Beth yw'r bylchau a'r problemau cyfredol i'w datrys?)

### Gofynion Lefel Uchel

- Ar-lein
- Cydweithredu os gallwn ni rannu gwybodaeth am weithgareddau (BARS +). Lle i rannu amcanion a thargedau ar gyfer bioamrywiaeth – gan gynnwys cynllunio gofodol, targedu a blaenoriaethau (e.e. Beelines)
- Eisiau siop un stop/porthol i gysylltu'r hyn sy'n bodoli eisoes neu ei wneud yn fwy effeithiol. Adnoddau cysylltu neu integreiddio – e.e. bas data camau gweithredu (fersiwn gwell) a bas data BARS (fersiwn gwell) a thrwyddedu rhywogaethau.
- Safbwyntiau teilwredig niferus ar gyfer rhanddeiliaid penodol a dargedir e.e. Gwybodaeth gryno i swyddogion Awdurdodau Lleol sy'n mynychu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Tystiolaeth ar gyfer Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol. Tystiolaeth i Fyfyrwyr Prifysgol ac ati - yn cynnwys gwahanol safbwyntiau
- Rhaid cael adnodd y gellir ei archwilio o'r naill ben i'r telesgop
- Pokemon Go ar gyfer bioamrywiaeth – gemau 'bioamrywiaeth' difyr i bob oedran
- Cyswllt â phorthol cynllunio Cymru gyda mecanweithiau haws fel adrodd yn null Dashboard e.e. Sawl cais cynllunio sydd wedi rhoi ystyriaeth i fioamrywiaeth?
- Cyswllt ag ymgynghorwyr a busnesau
- Cyswllt â thystiolaeth iechyd

- Adnoddau modelu / gallu (e.e. modelu statws cadwriaethol ffafriol)
- Gallu/swyddogaeth amserol
- Gallu ansoddol i osod cofnodion yn erbyn mesurau canlyniad e.e. Archwiliad Adran 6 – adrodd yn ôl ar ba mor agos ydyn ni at darged a phwynt cyswllt sengl ar gyfer y targed
- Gallu cofnodi cofnodion negyddol neu absenoldeb – angen dangos ble nad oes unrhyw dystiolaeth, neu ble mae ardal neu rywogaeth wedi'i thangofnodi
- Cyflwyniad gofodol o dystiolaeth a gweld/chwilio am leoliad
- Cynnwys cysylltedd
- Gweld Cynefin/Rhywogaeth ar bob tystiolaeth/cynnwys
- Catalog o gyfresi data
- Metadata a mesurau ansawdd gyda rhybuddion fel neges godi, neu ddata sy'n amhriodol yn diflannu wrth chwyddo

**Pwyso a Mesur (crynodeb o'r adnoddau mae'r rhanddeiliaid yn yr ystafell yn eu defnyddio ar hyn o bryd)**

- Mapio gweithgarwch Cymru – wedi cymryd sylwadau
- Adnodd Haen Aml-fap WWBIC
- Adnodd Mapio Cyfleoedd WWBIC - Aderyn
- Ap Butterfly – cyfateb i Pokemon go
- Adnodd cofnodi data LERCs ac adroddiadau data pwrpasol
- Geoborthol Lle
- BARS
- Cyfresi data crai
- Cofnodwr Morol MAGIC
- MapMate

**Materion**

- Mae angen i Delerau ac Amodau contractau/grantiau'r sector cyhoeddus ofyn i'r rhai sy'n derbyn cyllid y sector cyhoeddus ddefnyddio'r bas data/system berthnasol i rannu data neu adrodd yn ôl ar ganlyniadau bioamrywiaeth
- Rydyn ni eisiau gwybod pwy sy'n defnyddio'r dystiolaeth, ar gyfer beth, ac unrhyw ganlyniad i hynny
- Rhaid i Lywodraeth Cymru allu ei ddefnyddio ar gyfer cofnodi penderfyniadau (e.e. manylion grant gwastraff a'i ystyriaeth i fioamrywiaeth)
- Gellid gwella'r bas data camau gweithredu a BARS yn fawr ac nid yw pob sefydliad/rhanddeiliad yn eu defnyddio – angen arwain drwy esiampl a chysylltu â thelerau ac amodau cyllid i sicrhau bod unrhyw system yn cael ei defnyddio (gweler uchod)
- Mwy o fynediad i ddata/cofnodion ymgynghorwyr ecolegol a Phrifysgol os gwelwch yn dda.
- Modelau cyllido ar gyfer rhai cyfranwyr yn seiliedig ar werthu data a gall gyfyngu ar ein gallu gyda'n gilydd i rannu'n agored.
- Angen ystyried y gynulleidfa – pwy sy'n defnyddio'r data ac a ydynt yn eu deall? (e.e. peiriannydd priffyrdd). Nid yw system yn cymryd lle cyngor arbenigol. Angen sicrhau bod unrhyw systemau'n arwain defnyddwyr at arbenigwyr.
- Eisiau cynnwys yr holl sectorau mewn cymdeithas, ac yn enwedig yr ifanc – Pokemon ar gyfer bioamrywiaeth

- Rhaid i unrhyw newidiadau gynnal integriti’r data hynny mae’n eu trosglwyddo o un system/defnyddiwr i un arall
- Gormod o flychau gollwng yn y systemau presennol
- Dim cysylltiad rhwng camau gweithredu bioamrywiaeth a chofnodion bioamrywiaeth. Dim cyswllt rhwng arolygu a monitro â phrosiectau os nad yw’r data’n cael eu cyhoeddi.
- Porth NBN
- Ap Priddoedd BGS
- Apiau Inns
- Bas data Prifysgol Caerdydd a’r Porth Ymchwil o adroddiadau ac ati

**Ar gyfer pwy mae - crynodeb cyflym i randdeiliaid (a safbwyntiau teilwredig enghreifftiol)**

**Dylanwadwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau**

- Dashfwrdd o fanteision a chanlyniadau i Weinidogion a CX yn e.e. ALlau/YNau/CNC – e.e. gwerth i'r economi leol
- Cysylltu defnydd o systemau â chymeradwyo cyllidedbau / ymrwymiadau

**Ymarferwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau**

- Data cymeradwy
- Dolen/llwybr/cyfeirbyst at arbenigwyr
- Adnoddau i ymgorffori data yn eu basau data/systemau eu hunain
- Cynnwys mewn prosesau presennol
- Cynnwys cyngor ac arweiniad
- Rhannu penderfyniadau a chamau gweithredu

**Busnesau**

- Cyfrifoldeb Corfforaethol Cymdeithasol – sut gall neu a yw busnesau'n cyfrannu
- Gwerth i fusnes

**Chwaraewyr gemau – ardal gemau**

- Pokemon go ar gyfer bioamrywiaeth
- Dolenni at adnoddau ar-lein gwyddoniaeth y dinesydd

**Cofnodwyr Gwirfoddol**

- Cyfrif ar-lein
- Canllawiau adnabod ac ati

**Addysg**

**Y Camau Nesaf**

Bydd y wybodaeth gaiff ei chasglu yn y gweithdy'n cael ei rhannu gyda grŵp llywio prosiect Atlas Cymru Fyw i helpu i ddatblygu porthol bioamrywiaeth ar gyfer y gymuned fioamrywiaeth yng Nghymru.

Hefyd bydd yn cael ei defnyddio yng ngwaith parhaus CNC i adolygu gofynion tystiolaeth ar gyfer SMNR.

*Dolen i'r cyflwyniad*

**Trip Maes: Cors Erddreiniog.**
**Justin Hanson, Cyfoeth Naturiol Cymru**

Mwynhaodd y cynadleddwyr drip i Ynys Môn i weld Cors Erddreiniog, rhan o brosiect LIFE+ corsydd Môn a Llŷn, sef y prosiect adfer tir gwlyb mwyaf yng Nghymru. Fe wnaethant ddysgu pam mae'r safle'n bwysig i fywyd gwyllt ac i bobl a pham mae'n bwysig buddsoddi amser ac adnoddau yn ei wella a'i gadw fel y mae. Mae'r cynefinoedd cors prin iawn yma'n dibynnu ar gydbwysedd dŵr gofalus a ffynhonnau calchfaen sy'n llifo i'r mawn, ac mae canfod ardaloedd mor enfawr o blanhigion fel corsfrwyn duon yn unigryw i'r safle yma yn y DU.



## Diwrnod 2: Sesiwn y Bore

### Cadeirydd: Andy Middleton, Aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru - "Rydyn ni yn hyn gyda'n gilydd"

Cyflwynodd Andy siaradwyr y diwrnod fel rhai'n cynnig persbectif gwahanol ar sut i greu gwelliannau bioamrywiaeth mewn amrywiol ffyrdd.

Cyfeiriodd Andy at sgwrs a gafodd gyda phrif swyddog adfywio Sir Fynwy, a oedd wedi dweud mai'r risg fwyaf i wasanaethau'r Awdurdod Lleol oedd parhau gyda "busnes fel arfer". Bydd y llwybr presennol yn ein gweld yn gwario 65% o gyfanswm cyllideb Cymru ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol o fewn deng mlynedd. Os bydd hynny'n parhau, y math o waith rydym ni i gyd yn ei wneud, a gwaith hamdden a chymunedol, fydd yn dioddef gyntaf pan fydd gwasgu ar gyllidebau. Mae cyfle gwych yma, ond mae'n rhaid i ni ddod o hyd i ofod newydd a rennir i wneud i bethau ddigwydd, ac mae'n rhaid i ni gydnabod pwysigrwydd camau bychain. Hefyd mae'n rhaid i ni gydnabod lefel y posibilrwydd sydd gennym ni yma yng Nghymru nawr: hyd yn oed os ydyn ni'n gwneud pethau da, mae posib eu gwneud yn well bob amser, neu wneud mwy ohonynt.

### Datrysiadau Anarferol a Chyfeillion Defnyddiol:
### Matthew Roberts, Cyfarwyddwr y Strategaeth Cynaliadwyedd, Interserve plc

Amlinellodd Matthew beth yw Interserve - grŵp gwasanaethau cefnogi ac adeiladu rhyngwladol gyda 50% o'i refeniw'n dod gan y llywodraeth, gyda gofyniad i ddarparu budd cyhoeddus ychwanegol. Mae Interserve yn gwneud hyn drwy gyfrwng ei gynllun cynaliadwyedd, sy'n ceisio lleihau ei ôl troed carbon 50% erbyn 2020.




Mae Gwasanaethau Cefnogi Landmarc, sy'n rhan o'r grŵp, yn rheoli stad ymarfer y Weinyddiaeth Amddiffyn, sy'n rhyw 240,000 hectar ledled y DU. Mae ei thir yng Nghymru'n cynnwys yr holl ddynodiadau cadwraeth cenedlaethol a rhyngwladol amrywiol ac mae'n cyfrannu rhyw £24 miliwn at economi Cymru. Roedd angen ffyrdd ac adeiladau newydd er mwyn ailstrwythuro ac ailbwrpasu'r stad ac roedd yn ofynnol i Interserve liniaru am golli cynefin. Drwy ddod â data cyhoeddus a busnes at ei gilydd, gan gynnwys data bioamrywiaeth, creodd Interserve adnodd mapio cyfalaf naturiol gan gynnwys cymaint o ffactorau â phosib ar gyfer gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar wybodaeth.

Mae busnes angen natur ac mae natur angen busnes ac, yn y gorffennol, nid ydynt wedi dod at ei gilydd erioed. Nawr mae'r llais busnes yn eistedd yn gyfartal gyda'r gymuned fioamrywiaeth ar Lwyfan Busnes a Bioamrywiaeth Ewrop ac mae ganddo lais ar lwyfannau bioamrywiaeth eraill fel y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol.

Mae natur yn darparu rhyw $75 triliwn i economi'r byd bob blwyddyn, ond eto mae'n dirywio. Amcangyfrifir bod y blwch cyllid i wyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yn $200-300 biliwn, ond nid oes gan lywodraethau fwy o arian, ac nid ydynt yn ymwneud â defnyddwyr sy'n caru natur ond nad ydynt eisiau talu amdani. Cafodd y gynulleidfa ei herio

i feddwl yn nhermau Fy Myd, Ein Byd ac Y Byd, hynny yw, dechrau gyda'r personol a'i wneud yn fater i unigolion, fel eu bod yn gofalu mwy am yr amgylchedd.

Nid oes gennym gynllun cyffredinol ar gyfer sut i wyrdroi'r dirywiad ac mae'n rhaid i ni weithio fel un tîm oherwydd *mae* gennym ni amser i wneud hyn.

Mae busnesau'n fodlon buddsoddi mewn byd natur os ydynt yn gallu dod o hyd i ffrwd incwm i gyd-fynd. Rhaid i ni newid ein dull o weithio: mae busnesau eisiau chwarae eu rhan a rhaid goresgyn rhwystrau er mwyn i ni i gyd allu cydweithio.

*Dolen i'r cyflwyniad*

## Bioamrywiaeth – Dim Colled Net ar Raglen y Gorllewin: Claire Sweeney, Network Rail

Rhannodd Claire fideo i roi syniad o raddfa prosiect Network Rail (NR) sydd â'i ffocws ar hyn o bryd ar y lein reilffordd rhwng Maidenhead a Chaerdydd ond a fydd yn cael ei hymestyn o Gaerdydd i Abertawe yn 2019. Mae nifer o Awdurdodau Lleol a phartneriaid cadwraeth ar hyd y llwybr.




Roedd gan brosiect NR ymrwymiad cyffredinol i ddangos cyfraniad net cadarnhaol, mesuradwy at fioamrywiaeth ond, oherwydd lefel y gwaith clirio llystyfiant cysylltiedig, roedd gan y prosiect hwn nod o ddim colled net.

Dyma'r prosiect mwyaf, a'r mwyaf datblygedig, allan o saith prosiect peilot tebyg yn y DU, ac esboniodd Claire pam fod angen clirio llystyfiant - cost, diogelwch ac i osgoi oedi. Amlinellodd eu gweledigaeth ar gyfer trosglwyddo cynefin coetir i gynefin prysgwydd ar dir isel a glaswelltir. Roedd AEA ac asesiadau cynefin wedi cael eu cynnal a hefyd arolygon ar rywogaethau penodol, a gwelwyd bod yr ardaloedd yn llawn mathau cyffredin o gynefin ond gyda rhai poblogaethau bychain o rywogaethau dan warchodaeth mewn llefydd. Ni fyddai gwerth y llinellau fel coridorau bywyd gwyllt yn cael eu heffeithio'n sylweddol. Roeddent yn defnyddio metrig Defra i fesur colli bioamrywiaeth, a oedd yn asesu cynefinoedd ar eu nodweddion unigryw, eu cyflwr a'u harwynebedd, i neilltuo gradd uned bioamrywiaeth y gellid ei defnyddio i asesu eu gweithgareddau i wneud iawn. Roeddent yn ffafrio gwneud iawn o fath gwahanol, gan chwilio am ddarpariaeth tebyg am well neu debyg am debyg.

Esboniodd Claire rai dulliau gweithredu ar gyfer cyflawni hyn, gan gynnwys gweithdai ymgysylltu gyda rhanddeiliaid a 'chyfarfodydd bioamrywiaeth' un i un i lunio rhestr fer o brosiectau gwneud iawn posib. Gan nad oes gan NR dir i wneud gwaith bioamrywiaeth eu hunain, roedd y prosiect yn gyffredinol yn edrych ar drosglwyddo'r gweithredu i bartneriaid cyflawni yn dilyn y dewis terfynol, a hefyd byddent yn cyllido'r rheolaeth ar safleoedd am y tair blynedd gyntaf.

Roeddent yn gweithio gyda chost amcangyfrifol o £2.5k am bob uned bioamrywiaeth, £1.25M yn gyffredinol (llai yng Nghymru), nad oedd yn arwyddocaol iawn o gymharu â chost y rhaglen yn gyffredinol.

*Dolen i'r cyflwyniad*

### ***WaterSource***: Gwarchod ein dŵr yfed nawr ac am flynyddoedd i ddod: Phillippa Pearson, Dŵr Cymru/Welsh Water

Cyflwynodd Phillippa gwmpas heriau Dŵr Cymru. Mae Dŵr Cymru yn cymryd dŵr ar gyfer yfed o tua 120 o ddalgylchoedd sy'n gorchuddio mwy na 2.65 miliwn o erwau a chymysgedd o ddefnydd tir. Rheoleiddir Dŵr Cymru yn fanwl gan OFWAT, DWI a CNC ac mae'n gweithio yn unol â chylchoedd cynllunio busnes 5 mlynedd. Er mwyn sicrhau ei fod yn darparu dŵr o ansawdd uchel, gallai'r cwmni fuddsoddi mewn offer a chemegau gweithgynhyrchu ychwanegol: fodd bynnag, mae wedi dechrau edrych ar reoli dalgylchoedd (drwy gyfrwng ei raglen WaterSource) er mwyn rhoi sylw i broblemau yn y gwraidd, i sicrhau bod y dŵr sy'n cyrraedd y gwaith trin dŵr o ansawdd gyson y gellir ei reoli, ac er mwyn sicrhau bod y cyflenwad dŵr yn parhau'n fforddiadwy i gwsmeriaid.




Un esiampl o ffordd newydd o weithio yw Cronfa Ddŵr Talybont ym Mannau Brycheiniog. Mae'n ddalgylch yn yr ucheldir, gyda choedwigaeth, amaethyddiaeth a thir comin. Roedd rhaid clirio 113 hectar oherwydd *Ffytoffthora.* Fodd bynnag, gwelwyd hwn fel cyfle i symud oddi wrth y dulliau o weithio oedd yn bodoli ac i feddwl am bethau eraill y gellid eu gwneud.

Cafodd tair sefyllfa eu hystyried:

4. Busnes fel arfer (clystyrau o un rhywogaeth o gonwydd)
5. Newid cyfansoddiad y rhywogaeth i lydanddail
6. Newid cyfansoddiad y rhywogaeth a choedyddiaeth

Mae gan ddalgylchoedd eu "personoliaethau" eu hunain ac mae'n rhaid i ni gydnabod hyn a chynllunio yn unol â hynny i ystyried eu nodweddion a'u hymddygiad (mae'n haws deall hyn drwy gynnal mapio risg a dylid cynnwys y dull hwn o weithredu yn y cynlluniau yn y dyfodol). Mae dadansoddiad Cyflawni Ecosystemau Cyflawn (TED) wedi cael ei ddatblygu. Sefyllfa 3 oedd yn darparu'r budd TED mwyaf – ond bydd yn cymryd amser i fonitro effaith ariannol y dull newydd yma o weithredu.

*Dyma fydd y camau nesaf:*

- monitro / samplu i fesur llwyddiant
- asesu'r effaith ariannol
- estyniad ar ystyriaethau cynaliadwyedd amgylcheddol
- annog perchnogion tir eraill i fabwysiadu'r dull o weithredu.

*Dolen i'r cyflwyniad*

## Manteisio i’r eithaf ar gyfraniad bioamrywiaeth at lesiant Cymru: Mike Palmer, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol

Amlinellodd Mike ei brofiad pan oedd yn gweithio ym maes Llywodraeth Leol, yn y trydydd sector ac i Lywodraeth Cymru, gan wireddu cyfyngiadau’r hyn y gall gwasanaethau cyhoeddus ei gyflawni. Yn aml iawn roedd y cyfyngiadau hynny’n ymwneud â diwylliant y sefydliad a’r ffordd roedd yn ei reoli ei hun. Hefyd gwelodd beth allai gweithredu cymunedol a chan y trydydd sector ei gyflawni drwy weithio gyda phobl a’u grymuso, a datblygodd gred gref y dylai dinasyddion fod wrth galon gwasanaethau cyhoeddus, gyda phŵer i wella ansawdd eu cymunedau. Rhaid i ni ofalu rhag cyfaddawdu ar allu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion.



Mae nifer o risgiau wedi cael eu datgan a allai danseilio potensial enfawr Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Un risg allweddol yw bod cyrff cyhoeddus yn unioni’r hyn maent yn ei wneud ar hyn o bryd i’r nodau a’r egwyddorion. Os bydd hyn yn digwydd, collir cyfle i sicrhau bod y cyrff cyhoeddus hynny’n addas ar gyfer y dyfodol, gan mai sefydlogrwydd tymor byr mae hyn yn ei gynnig, a sicrhau cysondeb – sy’n broblem, gan fod yr holl dystiolaeth yn dangos nad yw ‘busnes fel arfer’ yn ymarferol mwyach.

Tynnodd yr Adroddiad Living Planet gan WWF sylw at y ffaith bod poblogaethau bywyd gwyllt byd-eang wedi dirywio 52% ers 1970. Mae bioamrywiaeth yn dirywio ac mae ein hôl troed carbon ecolegol yn fyd-eang yn uwch nag y dylai fod, gyda mwy o bwysau ar gyfoeth naturiol. Mae diweddariad y rhestr goch o rywogaethau mewn perygl eleni’n cynnwys 83,000 o rywogaethau ac mae 24,000 yn wynebu bygythiad o ddiflannu. Yng Nghymru, canfu’r Adroddiad Sefyllfa Byd Natur bod mwy nag un o bob chwe rhywogaeth yn cael ei hystyried dan fygythiad a bod gostyngiad yn nifer y rhywogaethau o löynnod byw, planhigion yn blodeuo a rhywogaethau o adar fferm, yn bennaf oherwydd y dirywiad yn y cynefinoedd maent yn dibynnu arnynt. Rydym nawr mewn cyfnod ble mae gweithgarwch dyn yn cael ei weld fel y prif ddylanwad ar hinsawdd a’r amgylchedd.
Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn datgan y Gymru rydym eisiau ei chreu ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol. Mae’n galw ar gyrff cyhoeddus i gyfrannu cymaint â phosib at y saith nod llesiant ar gyfer Cymru:

- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy’n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang
- Cymru lewyrchus

Mae’n ofynnol i gyrff cyhoeddus weithredu mewn pum ffordd:

- cymryd camau gweithredu ataliol
- gweithio mewn ffordd integredig
- gweithio gydag eraill
- asesu canlyniadau ein penderfyniadau

- cynnwys dinasyddion

Gyda'i gilydd mae'r nodau a'r egwyddorion hyn yn ffurfio fframwaith ar gyfer penderfyniadau'r sector cyhoeddus, a nawr bod datblygu cynaliadwy wedi'i ddiffinio yn y gyfraith yng Nghymru, rhaid i ni weithredu. Rhaid i bob corff cyhoeddus gynhyrchu ei nodau llesiant ei hun yn edrych ar beth sy'n anghywir a beth sy'n gadarn.

Mae gwir risg ein bod ni'n disgrifio'r problemau, yn pennu amcanion, yn monitro ac yn llunio cynlluniau ac adroddiadau, pan mae ein holl wybodaeth yn dweud wrthym ni fod y byd naturiol yn ymateb mewn ffordd annisgwyl. Mae'r Swyddfa'n awyddus i edrych ar ffyrdd o asesu a chofnodi cynnydd sy'n galluogi ac yn meithrin dysgu ac arloesi fel ymateb i ansicrwydd. Un ffordd o wneud hyn yw drwy gydweithredu â chanolfan Cymru ar gyfer newid ymddygiad ym Mhrifysgol Bangor, ble nodwyd bod targedu gormodol yn niweidio gwasanaethau i ddinasyddion ac yn colli ymddiriedaeth rhwng pobl, gwleidyddion a'r llywodraeth; pan ddaw mesur yn darged nid yw'n fesur da wedyn.

Un model arall ar gyfer mesur perfformiad ar gyfer y sector cyhoeddus yw'r model 'asiant newid' – pan mae'r rhaglen yn gweithio'n dda, rydych chi a'ch cydweithwyr yn 'asiantau newid'. Mae ymgysylltu â dinasyddion yn hanfodol os ydyn ni am newid ein hymddygiad er mwyn sicrhau nad ydym yn cyfaddawdu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Un o'r meysydd cychwynnol y bydd y Swyddfa'n edrych arnynt yw adnabod arferion cadarnhaol ar gyfer cynnwys pobl mewn ffordd ystyrlon mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae prosiectau sy'n dod o'r Gronfa Natur, a threialon ardal CNBC fel Ochr Mynydd y Rhondda, yn esiamplau da.

Mae 'presgripsiwn gwyrdd' yn faes arall ar gyfer gwell cyswllt, sy'n cael ei ddefnyddio yn Seland Newydd. Er mwyn i'r Ddeddf fod yn llwyddiannus, rhaid i'r pum ffordd o weithio ddod yn norm ac mae'n rhaid i ni geisio ffrwyno potensial bioamrywiaeth.

*Dolen at yr araith lawn*

## Trafodaeth banel a thrafodaeth agored i'r llawr

*Aelodau'r Panel*
Cadeirydd: Andy Middleton (AM), Aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru

Mat Roberts (MR), Interserve plc
Dai Harris (DH), Llywodraeth Cymru
Phillippa Pearson (PP), Dŵr Cymru/Welsh Water
Mike Palmer (MP), Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
Claire Sweeney (CS), Network Rail
Tim Jones (TJ), Cyfoeth Naturiol Cymru

*Cwestiwn 1: Leanne Bird, Cyngor Sir Ceredigion*
*Sut ydych chi'n teimlo mae'r gynhadledd yma wedi bodloni'r nodau llesiant a'r pum ffordd o weithio? O bersbectif yr Awdurdodau Lleol neu bartneriaethau bioamrywiaeth, fe fyddwn i'n dweud ei bod wedi methu ar gynnwys, integreiddio a chydweithredu. Byddwn yn eich*

*herio chi'r flwyddyn nesaf i gynnal cynhadledd sy'n siarad mewn iaith sy'n siarad gyda'r bobl? Sut mae cael cynhadledd sy'n gynhwysol?*

(MP) Dull y swyddfa o weithredu gyda hyn yw ein bod ni'n ffodus yng Nghymru o fod â'r darn heriol yma o ddeddfwriaeth sydd hefyd yn alluogol iawn ac yn darparu llwyfan gwych er mwyn i ni wneud pethau'n wahanol. Ochr yn ochr â hyn rydyn ni'n cydnabod nad ydyn ni'n mynd i gyrraedd yno dros nos. Efallai bod agweddau ar y gynhadledd nad ydynt yn cyd-fynd yn union efallai â'r egwyddorion neu'r nodau. Mae pob corff cyhoeddus yn y gofod hwnnw ac rydyn ni i gyd yn dysgu sut i wneud y gorau o'r ddeddfwriaeth yma. Un o'r pethau mae'r swyddfa'n awyddus i'w wneud yw agor ffynhonnell ein dysgu, fel bod pobl yn gallu gweld sut rydyn ni'n dysgu i ymgymryd â'n rôl yn y ddeddfwriaeth yma. Mae hyn yn golygu y bydd ein camgymeriadau ni i'w gweld hefyd - mae hynny'n eithaf pwysig, a dylem deimlo'n gyfforddus gyda gweld hwn fel gwaith sy'n cael ei ddatblygu, a hefyd yn gyfforddus am gael ein herio a phobl yn gofyn i ni wneud yn well. O fynd yn ôl ddegawd neu ddau, roeddwn i'n rhwystredig iawn wrth weithio yn y trydydd sector o weld bod technegau cyfranogiad cyhoeddus rhagorol yn digwydd mewn gwledydd amrywiol ledled y byd, ac eto bryd hynny hyd yn oed, nid oeddem yn gwneud defnydd ohonynt yn effeithiol, ac nid oes llawer o gynnydd wedi bod yn y cyswllt hwnnw. Rydw i'n siarad am bethau diddorol iawn a wnaed gan Robert Chamber ym Mhrifysgol Dwyrain Anglia, sy'n ymwneud â throsglwyddo'r awenau i sicrhau bod gan bobl reolaeth a pherchnogaeth ar eu hymgysylltu eu hunain. I ateb y cwestiwn, gallwch wella hyn drwy edrych ar rai o'r technegau hynny: un sy'n dod i'r meddwl yw 'gofod agored'.

(AM) I'r panel: Un peth rydych chi wedi'i ddysgu hyd yma i helpu trefnwyr y digwyddiad yma y flwyddyn nesaf?

(CS) Ymgysylltu cynnar.



(PP) Negeseuon syml a chlir.

(DH) Mae dau beth rydyn ni wedi methu arnyn nhw mewn perthynas â chyfranogiad yn y gynhadledd yma. Yn y sector yma does gennym ni ddim digon o bobl ar y tir yn gwneud y gwaith, hefyd mae'r bobl arferol yma. Un awgrym yw herio ein hunain i ddod ag un person o'r tu allan i'n sector i'r gynhadledd y flwyddyn nesaf.

(MR) Gosod hynny fel nod. Rydw i'n amau bod y gynhadledd yma wedi cyflawni ei nod, ac os mai un o'r nodau hynny oedd ein bod ni eisiau pobl yn yr ystafell nad ydynt yma fel rheol - rhaid i chi ysgrifennu hynny a'i wneud e - nodwch hynny fel amcan, mae'n her dda ar gyfer y flwyddyn nesaf.
(AM) Mae Cynhadledd Busnes Cymdeithasol ble mae posib i ni siarad gyda'r trefnwyr a chynnal digwyddiad cyfochrog ar yr un diwrnod gyda sesiynau posib ar y cyd.

*Cwestiwn 2: Sue Burton, ACA Forol Sir Benfro*
*Er 'mod i'n cytuno â phwysigrwydd siarad gyda chwaraewyr eraill, mae'n rhaid i ni fod yn ofalus nad yw busnesau a rhanddeiliaid yn gweld cyrff y Llywodraeth fel cyrff â phrinder arian a cheisio'u cael i dalu am gyfrifoldebau statudol. Dyma sut ddylen ni gyfathrebu: mae CNC, LlC ac Awdurdodau Lleol yn hyn, dyma beth sydd raid i ni ei wneud, rydyn ni angen*

*ei wneud gyda chi a dyma sut rydyn ni'n ei wneud yn bersonol ac yn gynhyrchiol, ac yn broffidiol i chi fel rhanddeiliad gwahanol. Oes posib mynegi'r neges mewn ffordd ofalus rhag gwneud i fusnesau a diwydiant droi eu cefn, heb iddynt feddwl nad oes gennym ni arian a'ch bod chi'n ceisio cael f'un i i wneud eich gwaith chi? Beth am ddechrau'r sgwrs newydd yma?*

(MR) Mae busnesau'n gwybod nad oes gan y llywodraeth arian a bod rhaid i ni weithio gydag amrywiaeth eang o sefydliadau mewn ffordd wahanol, a'n bod ni'n fodlon buddsoddi yn hynny. Os ydych chi eisiau i ni fuddsoddi yn y pethau rydych chi eisiau i ni eu gwneud, dywedwch wrthym ni sut mae hynny'n fuddiol i ni. Beth ydi'r manteision i fusnes? Beth fydd yr elw ar y buddsoddiad? Rhaid i fusnesau gael elw clir, yn enwedig os yw'n fesuradwy, ond nid oes raid iddo fod yn ariannol o angenrheidrwydd.

(PP) Rydw i'n cytuno. Rhaid i ni feddwl yn ehangach am y manteision. Mae llawer o sefydliadau'n dod at Ddŵr Cymru yn disgwyl cefnogaeth. Maen nhw eisiau i ni fuddsoddi yn rhywbeth, ac yn aml mae hynny mewn termau cyffredinol fel: rydyn ni'n gwneud y gwaith yma ac mae yn un o'ch dalgylchoedd chi ac fe fyddai o fudd i ansawdd dŵr. Rydyn ni eisiau gwybod sut, ac erbyn pryd, a faint o fudd fydd i'w gael. Pan rydw i'n mynd yn ôl ac yn gofyn y cwestiynau hyn, yr ymateb rydyn ni'n ei gael ydi 'chi sydd i ganfod yr ateb i hynny' gan mai chi ydi'r arbenigwr. Ydw, rydw i'n gallu canfod yr ateb ond ni fyddai llawer yn fy sefydliad i'n ei ganfod i chi. Rydyn ni'n fwy blaengar ein ffordd o feddwl erbyn hyn, gyda gweledigaeth 25 mlynedd sy'n cynnwys cadernid; mae'n rhoi sylw i wneud ein dalgylch yn iach a chadarn ar gyfer y dyfodol. Ond mae'n rhaid iddo olygu rhywbeth i mi, heb ddisgwyl i mi wneud y gwaith.

(AM) O bersbectif gwerthiant, rhaid i ni gael hyfforddiant mewn technegau i sicrhau sefyllfa ble mai ymateb naturiol rhywun yw dweud "Iawn". Rhaid i ni ei gwneud yn hawdd iddyn nhw ateb yn gadarnhaol.

(CS) Asiantaeth gyda'r llywodraeth ydyn ni ac rydyn ni'n chwilio am y budd i'r sefydliad o wneud gwaith bioamrywiaeth. Un o'r pethau hynny yw gweithio gyda chymunedau ar hyd y daith, i ymgysylltu â nhw a rhoi rhywbeth yn ôl yn y tymor hir oherwydd rydyn ni'n mynd drwy eu cymuned. Mae clirio llystyfiant yn achosi cwynion ac felly i ni mae gwneud rhywbeth da a rhoi yn ôl i'r gymuned yn golygu manteision busnes neu fanteision i'r sefydliad, oherwydd rydyn ni eisiau gwella ein cysylltiadau gyda chymdogion.

(TJ) Mae ymgysylltu cynnar yn bwysig. Mae gennym ni nifer fawr o bobl yn dod atom ni'n hwyr, gyda chynnig datblygu sy'n cynnwys problemau yn ein barn ni o bosib. Un esiampl o weithio'n dda gyda datblygwr oedd ar safle llygredig iawn, gyda nhw'n dod atom ni eisiau creu lleoliad syrffio. Treuliwyd llawer iawn o amser yn gweithio gyda nhw ar sut i ddadlygru'r safle'n ddiogel, a diogelu rhywogaethau a chynefinoedd y safle a gwella'r fioamrywiaeth yno ac ar safle gwarchodedig gerllaw. Mae pawb ar eu hennill. Y rheswm pennaf dros hyn yw ymgysylltu cynnar. Cafwyd budd o gostau is drwy weithio gyda ni'n gynnar, yn hytrach na gorfod cynnwys yr amgylchedd am yn ôl yn eu cynlluniau.

(DH) Bydd Deddf yr Amgylchedd, darn newydd o ddeddfwriaeth, a datblygu'r Datganiadau Ardal, yn darparu llwyfan i roi sylw i unrhyw broblemau a all fod yn benodol i'r ardaloedd hynny. Nid dim ond arian sy'n bwysig, ond dod â'r gyfres briodol o sgiliau a'r bobl briodol at ei gilydd i feddwl am atebion i unrhyw sefyllfa yn y datganiadau.

(AM) Rydw i'n gobeithio y bydd llwyfan fel Neighbourly https://www.neighbourly.com/ yn gallu creu gofod cymunedol i ddweud beth yw ein gallu gwirfoddoli ac adnoddau llawn ar gyfer pob un o'n hardaloedd, a sut mae hynny'n cyd-fynd â'n hanghenion bioamrywiaeth a chyfiawnder cymdeithasol.

*Cwestiwn 3: Pete Frost, Cyfoeth Naturiol Cymru*
*Beth yw'r rhwystr mwyaf o ran gwneud i bresgripsiwn gwyrdd weithio yng Nghymru?*

(MP) Rydyn ni newydd ddechrau edrych ar hyn ac mae fy ateb i'n mynd i fod yn eithaf anecdotaidd. Mae'n ystod lawn o bethau - risg yn rhannol. Os yw meddygon teulu'n cyfeirio pobl at rywbeth sydd y tu allan i'w cylch gweithredu arferol hwy, mae'n rhaid iddynt fod â hyder ei fod yn mynd i gael sylw mewn ffordd broffesiynol a'u bod yn gallu dibynnu ar y cyfeirio. Lle bu rhywfaint o bresgripsiwn cymdeithasol, mae ei lwyddiant wedi cael help gan gyfryngwyr sy'n gweithio gyda'r meddygon teulu - math o berthynas "cyfryngwr gonest" gyda'r meddyg teulu'n rhoi hyder yn y cyfryngwr i allu delio â'r person sydd wedi'i gyfeirio a dod o hyd i rywbeth addas iddo o blith ystod o gyfleoedd sy'n mynd i fod o fudd, heb niweidio. Mae problemau eraill yn gysylltiedig â systemau a phrosesau a thraddodiad mewn ffordd. Y peth allweddol yw'r berthynas meddyg-claf a sut rydych chi'n ehangu hynny.

*Cwestiwn 4: Tim Orrell, Dinas a Sir Abertawe*
*Rydyn ni eisiau byd gwell ac fe ellid cael byd gwell, ond yr unig ffordd mae hynny'n mynd i ddigwydd yw drwy newid ymddygiad, ar lefel unigol, ar lefel gydweithredu, ar lefel fusnes ac ar lefel llywodraeth. Beth yw'r cynllun? Does dim cynllun ar lefel y llywodraeth ar gyfer newid ymddygiad ar lefel unigol. Ble mae'r 'cynllun cyfrwys' ar gyfer arwain pobl at newid drwy ddyhead yn hytrach na thrwy eu gorfodi? Beth sy'n cael ei wneud ar lefel Genedlaethol?*

(Diana Reynolds, Rheolwr Newid Datblygiad Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru, o'r gynulleidfa) Dim ond rhan fechan sydd gen i i'w chwarae yn hyn, newid ymddygiad a diwylliant y gweision sifil sy'n gweithio i Lywodraeth Cymru. Ydyn, rydyn ni'n edrych ar linellau dyhead, rydyn ni'n gweithio ar: sut mae cael sgwrs gyda rhywun i gael y siawns orau o'u cael i roi ateb cadarnhaol pan fyddwch chi'n gofyn y cwestiwn pwysig hwnnw iddyn nhw? Rydw i wedi a byddaf yn cynnal gweithdai cyn bob cynhadledd rydyn ni'n ei chynnal nes ei chael yn iawn.

(AM) Mae sgyrsiau mae'n rhaid i ni eu cael am sicrhau cydbwysedd o ran newid ymddygiad ac am beth allwch chi ei wneud i greu gofod i wneud i bobl fod eisiau newid.

(PP) Byddwn yn gweithio ar ymgyrch plaladdwyr ledled Cymru y flwyddyn nesaf. Pan wnaethom sefydlu'r ymgyrch, fe wnaethom benderfynu ei newid yn llwyr mewn ffordd. Os ydych chi'n mynd i ddefnyddio plaladdwr ac os yw'n cael effaith ar y dŵr, rhaid i chi newid eich ymddygiad a gwneud rhywbeth yn wahanol. O droi hyn ar ei ben a dweud eich bod yn defnyddio cemegyn sy'n gallu effeithio ar eich iechyd a'ch bod o bosib yn ei ddefnyddio ar fwyd rydych chi'n ei dyfu yn eich gardd, neu y bydd eich anifeiliaid anwes yn dod i gysylltiad ag ef, mae hon yn neges gwbl wahanol. Gwnewch i bethau olygu rhywbeth i bobl. Gwerthu pethau mewn ffordd wahanol, nid cael ffon neu foronen o angenrheidrwydd, ond dweud wrth bobl beth mae hyn yn ei olygu iddyn nhw: gallai defnyddio plaladdwr fod yn achosi niwed i chi. Os nad yw hynny'n gweithio, dydw i ddim yn gwybod ble i fynd. Os

nad ydi pobl yn sylweddoli bod yr hyn maen nhw'n ei ddefnyddio'n beryglus iddyn nhw, does dim llawer mwy y gallwch chi ei wneud.

(MR) Tim Hayward yw ein prif swyddog ariannol ni. Pan aeth ei ferch i Copenhagen fel llysgennad ysgol, roedd yn teimlo'n isel pan ddaeth yn ei hôl oherwydd roedd ganddi obeithion mawr, ond ni ddigwyddodd unrhyw beth. Mae'n ymddangos nad ydi'r llywodraeth yn gallu datrys hyn a dydi sefydliadau anllywodraethol enfawr ddim yn gallu gwneud i bethau ddigwydd. Gan fod Tim yn ddylanwadol mewn cwmni cymharol fawr, penderfynodd wneud beth allai i greu newid. Aeth i'r swyddfa a dweud ei fod wedi edrych ar beth rydyn ni'n ei wneud am gynaliadwyedd a'i fod yn wael, a'n bod yn colli busnes o ganlyniad i hynny. Dydyn ni ddim yn newid y sefydliad a dydyn ni ddim yn mynd i fod yma ymhen rhai blynyddoedd heb newid. Ysgwyddodd y cyfrifoldeb am gynaliadwyedd. Roedd rhaid iddo drawsnewid y tîm gwerthiant - oedd yn gwbl hyderus mai'r model roeddent yn gweithio arno oedd bod y cwsmeriaid bob amser yn prynu'r opsiwn rhataf - drwy ddweud ein bod wedi ennill gwerth £1.6 biliwn o waith, ac mai'r hyn a'n gwnaeth yn wahanol oedd ein cynaliadwyedd.

(AM) Felly plentyn yn adrodd stori wrth brif swyddog ariannol cwmni wedi sbarduno'r newid sydd wedi galluogi i gwmni gynyddu ei fusnes a symud pethau ymlaen yn y ffordd rydyn ni eisiau. Does dim rhaid i ni wneud y newidiadau hynny ein hunain o angenrheidrwydd.

(MP) Rhaid i ni wreiddio ble rydyn ni'n mynd gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gwreiddio'r cyfleoedd rydyn ni'n ceisio manteisio arnynt gyda hi ym mhrofiad y dinesydd drwy roi sylw i'w materion. Rhaid i ni ddangos bod posib creu newid cadarnhaol, a chanolbwyntio ar fod yn asiantau newid yn hytrach na dim ond darparu gwasanaeth. Dyma'r math o newid y mae'n rhaid i ni ei weld yn y sector cyhoeddus i helpu gyda hyn.

*Cwestiwn 5: Paul Kay, Cymdeithas Cadwraeth Forol*
*Cyhoeddwyd papur yn ddiweddar sy'n awgrymu bod holl lywodraethau'r DU yn methu bodloni disgwyliadau'r cyhoedd ar sut mae amgylchedd y môr yn cael ei reoli. O ystyried y sefyllfa hon, ydi deddfwriaeth o ddyhead yn mynd i roi sylw i'r broblem hon neu a yw'n debygol o godi'r disgwyliadau hynny i lefelau mwy amhosib fyth? Ydi targedau rhy uchel yn lleihau'r siawns y bydd pethau iawn yn digwydd?*

(MP) Does dim targedau'n gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydyn ni wedi gweithio i sicrhau nad oes dim ac mae llawer iawn o dystiolaeth academaidd a real bod y ffordd rydyn ni'n mesur targedau yn y sector cyhoeddus yn ein gyrru ni i ffwrdd oddi wrth y lle rydyn ni angen bod. Fel deddfwriaeth o ddyhead, a yw'n mynd i ehangu'r bwlch hygrededd o ran ble mae'r llywodraeth yn dweud y mae eisiau bod a ble mae'r cyhoedd yn teimlo mae'r llywodraeth? Oherwydd mae'n ddarn gwahanol iawn o ddeddfwriaeth, fel fframwaith galluogol yn hytrach na phresgripsiwn. Mae'n gyfle i wynebu'r her a bod yn arloesol, arbrofi a chymryd risg; nid dyma'r ffordd arferol o wneud pethau yn y sector cyhoeddus oherwydd fel rheol mae pobl yn gweithio gyda darn rhagnodol o ddeddfwriaeth.
(TJ) Rydyn ni wedi gwneud pethau fel hyn, gyda'r ddeddfwriaeth a'r pwerau sydd gennym ni, am y 50-60 mlynedd diwethaf. Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn rhoi fframwaith gwahanol i ni yng Nghymru, ffordd wahanol o wneud pethau. Os wynebwn ni'r her yma, a gweithio gyda'r ddeddfwriaeth newydd sy'n galluogi i ni weithio gyda'n gilydd, mae'n gyfle i ni wneud rhywbeth gwahanol ac mewn ffyrdd gwell. Mae'n rhaid i ni droi'r geiriau hynny'n weithredu ar y tir er mwyn gwneud i hyn weithio fel bod gennym ni Gymru sydd wir yn gynaliadwy.

(AM) Rydyn ni’n dechrau ein sgyrsiau ar Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ar sut allwn ni sicrhau llygredd sero.

## Diwrnod 2: Sesiwn y Prynhawn

### Cyhoeddiadau:

Manteisiodd sawl cynadleddwr ar y sesiwn hwn i dynnu sylw at ddigwyddiadau a negeseuon i ddod:

- Cynhadledd Flynyddol Gweld Gwerth Mewn Natur y Seilwaith Gwyrdd, 18 Hydref http://www.gip-uk.org/#calendar
- Mae Buglife Cymru eisiau mentro i ganolbarth a Gogledd Cymru – cysylltwch â nhw os ydych chi eisiau cymryd rhan https://www.buglife.org.uk/what-we-do/buglife-cymru
- Cynhadledd ar y cyd gan PONT / CIEEM – Codi Pontydd rhwng Ffermio a Natur: Pori yn Rhagori, 8-9 Chwefror 2017 http://www.cieem.net/events/1287/welsh-conference-2017
- Cynhadledd Cofnod 5 Hydref 2016 a digwyddiadau niferus eraill http://www.cofnod.org.uk/Calendar

### Cyfraniad seilwaith gwyrdd at lesiant Cymru:
### James Byrne, Ymddiriedolaethau Natur Cymru

Agorodd James drwy ddisgrifio'r ystod o warchodfeydd amrywiol a'r safleoedd dynodedig yng Nghymru, gyda'r Ymddiriedolaeth Natur ei hun yn rheoli 260 o warchodfeydd, a gwerth natur i bobl - mae natur yn llesol i ni! Cyflwynodd adroddiad newydd Ymddiriedolaethau Natur Cymru - Seilwaith Gwyrdd - Catalydd ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru a sut mae'n cyd-fynd â deddfwriaeth ddiweddar yng Nghymru, yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.



Rhannodd James esiamplau o seilwaith gwyrdd mewn ardaloedd trefol, yn enwedig ym Mecsico ble mae prosiect i droi pileri concrid sy'n cynnal priffyrdd uchel yn wyrdd yn gwella'r amgylchedd trefol, gan greu ocsigen, amsugno llygredd a lleihau sŵn traffig.

Gan weithio drwy bob un o'r saith nod llesiant, roedd James yn frwd am y potensial ar gyfer seilwaith gwyrdd mewn gofod a rennir a llefydd gwaith fel catalydd ar gyfer datblygiad economaidd yng Nghymru, o newid patrymau gwario pobl i leihau absenoldeb salwch, gydag esiamplau o'r DU ac ymhellach i ffwrdd o fusnesau'n mabwysiadu'r dull hwn o weithredu. Mae seilwaith gwyrdd yn dangos manteision mesuradwy i'r canlynol:

- lles meddyliol a chorfforol
- cydlyniant cymunedol
- gwelliannau clir yn sgoriau profion plant a oedd yn cael defnyddio gofod gwyrdd wrth ddysgu
- cyswllt rhwng bioamrywiaeth ac amrywiaeth ieithyddol – felly mae gan droi'n wyrdd botensial hefyd i gyfrannu tuag at gefnogi hyfywedd y Gymraeg!

Clodd James gyda galw am weithredu – "plannwch fwy o goed!".

*Dolen i'r cyflwyniad*

## Anerchiad Cloi:
## Andy Middleton

Mae'r dystiolaeth yn glir iawn. Rhaid dod â natur i mewn i'r ystafell gyda'r bobl hyn sy'n gwneud penderfyniadau. Does dim cronfeydd diddiwedd o arian i wneud hyn. Ond mae posib dod o hyd i arian drwy roi sylw i broblemau mewn ffyrdd effeithlon a dychmygus. Rhaid i ni ddefnyddio egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Sut mae cynnwys lleisiau ychwanegol? Sut mae mynd â lleisiau allan atynt?

Mae cannoedd o fusnesau'n pryderu. Mae'n rhaid i ni siarad gyda 12-15,000 o ffermwyr. Mae'n rhaid i ni greu gofod yng nghanol y gwahanol leisiau yma a rhoi'r gorau i'r angen am fod yn iawn am sut rydyn ni'n gwneud hyn. Mae'n rhaid i ni wrando.

Fe allen ni weld newidiadau mawr iawn. Nid dim ond, ee, yr Ymddiriedolaethau Natur ac Oxfam ar eu pen eu hunain fydd yn gallu diffinio hyn. Ond mae'r endidau hyn yn cynnwys miloedd o aelodau sydd â phwerau i wneud byd o wahaniaeth.

Gyda'n gilydd gallem newid profiad addysgol plant yng Nghymru. Rhoi cyfle i bob plentyn gynnau tanau mewn coed (yn ddiogel!). Felly, ymhen blwyddyn, fe allwn ni ddweud "Na, does gennym ni ddim cynllun eto ond ..."

Gwahoddodd Andy bawb i fynd ato, fel Aelod o Fwrdd CNC, gydag unrhyw awgrymiadau, a gofynnodd am unrhyw sylwadau gan y gynulleidfa am gyfeiriad y cynadleddau yn y dyfodol.

Sylwadau
- Glenda Thomas (FWAG Cymru) – O gymharu Glastir â'r Gronfa Natur, mae gwrthgyferbyniad llwyr o ran ymddiried mewn pobl i roi'r pecyn at ei gilydd.

- Gofynnodd Rhodri Asby (Llywodraeth Cymru) am glywed gan unrhyw un sy'n dod ar draws cymhelliant croes i'r graen.

Clodd Andy y gynhadledd drwy ddiolch i Sean McHugh a PBC am ei chroesawu ac i Sarah Wood a thimau CNC am ei threfnu.

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Cambria House
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun-Gwe, 8am - 6pm)

ymholiadau@cyfoethnaturiol cymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Ceir atgynhyrchu’r ddogfen hon gyda chaniatâd ymlaen llaw gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

## Bywgraffiadau'r Siaradwyr

**Andy Middleton**
Mae Andy Middleton yn Gyfarwyddwr Gweithredol y TYF Group, menter gymdeithasol sy'n eiddo i'r cyflogeion yn Nhyddewi, Sir Benfro. Cenhadaeth TYF yw helpu oedolion a phlant, timau busnes a grwpiau cymunedol i fagu hyder, sgiliau a rheswm dros drawsnewid y ffordd maen nhw'n chwarae, meddwl a gweithio. Mae'n Bartner Sylfaenu'r Do Lectures a thrwy Do Collective mae'n trefnu effaith tîm rhithiol o gannoedd o feddylwyr a gweithredwyr gorau'r byd, a thrwy Gyngor Cynghorol Cymru ar Arloesi, mae'n cynghori Llywodraeth Cymru ar strategaeth arloesi.

Mae Andy yn gynghorydd, hwylusydd a siaradwr strategol gyda byd busnes a llywodraeth, gan weithio gyda sefydliadau i gyflymu graddfa a chyflymder y newid i feithrin cadernid, yn seiliedig ar 25 mlynedd o brofiad mewn risg, dysgu gweithredol, bioddynwared a chynaliadwyedd.

Mae Andy yn gweithio'n rhyngwladol o'i ddinas enedigol, gan sicrhau cydbwysedd rhwng ei amser wrth ei ddesg a syrffio, caiacio môr a thyfu. Mae'n blogio yn www.tyf.com ac yn trydar fel @gringreen; mae ei sgyrsiau fel rhan o'r Do Lectures a TEDx ar gael ar-lein yma: Find your own luck http://www.dolectures.com/lectures/start-something-with-a-purpose-and-youll-find-your-own-luck/ ac yma Radical change http://www.youtube.com/watch?v=v1ZpOHSYzDQ

**Barnaby Letheren**
Mae Barnaby yn Gynghorydd Arbenigol y Rheolaeth ar Ddata ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru. Ar ôl ennill gradd mewn Cadwraeth Amgylcheddol a gradd meistr mewn Cadwraeth a Rheoli Tir o Brifysgol Bangor, dechreuodd weithio yn y sector data amgylcheddol. Ei ddiddordebau presennol yw data agored, gwaith partneriaeth, cyfuno data a sut gellir defnyddio data fel sail i gwestiynau eang am reoli cyfoeth naturiol.

**Bleddyn Lake**
Mae Bleddyn Lake wedi bod gyda Chyfeillion y Ddaear Cymru ers 2000. Astudiodd Fioleg y Môr ac Eigioneg ym Mhrifysgol Bangor (BSc) a Rheoli Cadwraeth Amgylcheddol ym Mhrifysgol Morgannwg (MSc). Mae'n gweithio fel ymgyrchydd a swyddog datblygu cymunedol ledled Cymru ac mae wedi gweithio ar ymgyrchoedd llwyddiannus fel Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Peillwyr, Deddf Newid Hinsawdd y DU, cnydau GM, ffracio a'r ffi am fagiau plastig. Mae hefyd yn aelod o grŵp llywio Stop Climate Chaos Cymru

Mae gan Bleddyn 2 ferch, mae'n gefnogwr mawr i'r Sgarlets ac mae'n anorac rygbi yn ôl ei gyfaddefiad ei hun!

**Catherine Duigan**
Ar hyn o bryd mae Dr Catherine Duigan yn arwain Grŵp Dadansoddi Tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae'r grŵp yma o fwy nag ugain o arbenigwyr technegol (amgylcheddau tir a dŵr) yn darparu tystiolaeth yn sail i weithrediadau ac i ddatblygu cyngor a pholisïau. Mae wedi chwarae rhan bwysig mewn datblygu strategaeth gorfforaethol CNC ar gyfer tystiolaeth ac mae hefyd wedi darparu cyngor strategol ar flaenoriaethau ymchwil i Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol, y llywodraeth ac eraill.

Yn gyffredinol, mae Catherine wedi creu gyrfa'n seiliedig ar ddarparu tystiolaeth, yn seiliedig ar ddefnyddio ei gwybodaeth fanwl am reolaeth amgylcheddol. Mae ganddi

ddealltwriaeth gadarn o gyfathrebu ar draws y rhyngwyneb gwyddoniaeth-polisi yng Nghymru / y DU / yr UE a rhwydwaith helaeth o gydweithwyr yn y gymuned academaidd, llywodraethol, cadwriaethol a rheoleiddiol.

Mae wedi cyhoeddi sawl papur gwyddonol ar agweddau ar yr amgylchedd yng Nghymru, gan gynnwys ysgrifennu a golygu'r llyfr *The Rivers of Wales*. Mae'n gwasanaethu ar fwrdd golygyddol *The Biologist*, cylchgrawn y Gymdeithas Frenhinol ar gyfer Bioleg. Ar lefel bersonol, mae'n ymchwilio i fywydau rhai o wyddonwyr benywaidd cynnar Cymru ac mae'n gynghorydd gyda The Mary Gillham Archives.

**Claire Sweeney**
Claire Sweeney yw Rheolwr Caniatadau Amgylcheddol Rhaglen y Gorllewin ers 2012. Mae Claire yn gyfrifol am sicrhau caniatadau amgylcheddol, cyhoeddi Datganiadau Amgylcheddol a'r Strategaeth Gaffael ar gyfer yr ymrwymiad Bioamrywiaeth - Dim Colled Net.

**Dai Harris**
Dai Harris yw Pennaeth Bioamrywiaeth a'r Gangen Cadwraeth Natur yn Llywodraeth Cymru.

**Dick Squires**
Dick Squires oedd rheolwr ardal Canolbarth Cymru ar gyfer yr RSPB cyn ymuno â PONT fel swyddog datblygu rhanbarthol rhan amser yng Nghanolbarth Cymru, swydd mae'n ei rhannu gydag Angie Polkey. Dysgodd siarad Cymraeg ar ôl symud i Gymru yn 1979 i ddechrau gweithio yng Ngwarchodfa'r RSPB yn Ynys Hir. Mae gan Dick wybodaeth eang am bori cadwraeth ac mae wedi rheoli'r pori cadwraeth yng Ngwarchodfa Ynys Hir ers pymtheng mlynedd, gan ei fod yn cadw ceffylau yn ei gartref yn Nyffryn Dyfi.

**Emma Douglas**
Cafodd Emma Douglas ei magu ar Benrhyn Gŵyr ac mae'n dal i helpu gyda rhedeg buches fechan o wartheg Duon Cymreig a cheffylau ar fferm y teulu. Bu'n gweithio i'r Ymddiriedolaeth ar gyfer Cadwraeth Ystlumod ar ei Phrosiect Monitro Amaeth Amgylcheddol Tir Gofal cyn ymuno â PONT yn 2012. Emma oedd y swyddog prosiect ar gyfer prosiect a gyllidwyd gan Ddyfarniad Biffa ar Dir Comin Coity Wallia ym Mhen-y-bont ar Ogwr, De Cymru. Erbyn hyn mae Emma yn Swyddog Datblygu Rhanbarthol PONT yn Ne Cymru.

**Emmanuel Deschamps**
Mae Emmanuel wedi bod yn Rheolwr Amgylcheddol gyda Network Rail ar Raglen Gorllewin Cymru ers 2014. Mae'n goruchwylio'r gwaith o weithredu a chydymffurfio â'r System Rheolaeth Amgylcheddol drwy weithio'n agos gyda Chontractwyr a Thimau Prosiect i adnabod agweddau amgylcheddol a lleihau effeithiau.

**Emily Finney**

**Helen Wilkinson**
Helen sy'n arwain ar reoli gwybodaeth gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae ei chefndir mewn ecoleg a rheoli cefn gwlad. Mae hefyd yn Swyddog Rheoli Data Proffesiynol wedi'i hardystio gan DAMA ac yn aelod o'r Sefydliad ar gyfer Arweinyddiaeth a Rheolaeth.

Mae Helen wedi gweithio yn sector yr amgylchedd ers dros 25 o flynyddoedd ac wedi ennill profiad mewn rheolaeth ymarferol ar dir, cadwraeth natur, asesu a chofnodi

bioamrywiaeth, rheoli llygredd, addysg amgylcheddol, rheoli data a rheoli gwybodaeth. Mae wedi gweithio yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

Am y degawd diwethaf, mae Helen wedi canolbwyntio ar dystiolaeth, cofnodi, Systemau Gwybodaeth Rheoli a rheoli data. Mae ei diddordeb (a'i chymhelliant) mewn defnyddio tystiolaeth amgylcheddol i helpu i ddatrys heriau amgylcheddol bywyd real a helpu i godi ymwybyddiaeth a chynyddu mwynhad o'n byd naturiol.

**Henry Schofield**
Dr Henry Schofield yw Rheolwr Cadwraeth a Gwyddoniaeth Ymddiriedolaeth Natur Vincent. Mae wedi'i hyfforddi'n arbenigwr ar ystlumod ac mae wedi gwneud gwaith ymchwil i'r ystlum pedol a rhai rhywogaethau prin o ystlumod coed. Yn sgil ei waith ar fele'r coed yn manteisio ar ystlumod yn gaeafgysgu fel ysglyfaeth yng Ngwlad Pwyl, cynyddodd ei ddiddordeb mewn cigysyddion bychain. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae wedi ymwneud â gwaith yr Ymddiriedolaeth ar garlymod, gwencïod a ffwlbartiaid. Mae wedi goruchwylio'r Prosiect Adfer Bele'r Coed gan weithio'n agos gyda'r tîm sy'n gwneud y gwaith trawsreoli a'r astudiaethau tracio radio.

**James Byrne**
James Byrne yw Rheolwr Tirweddau Byw Ymddiriedolaethau Natur Cymru. Mae'n Aelod Siartredig ac yn Aseswr gyda'r Sefydliad Siartredig ar gyfer Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (CIEEM). Yn y rôl hon mae'n gweithio gyda'r holl Ymddiriedolaethau yng Nghymru i ddatblygu eu Tirweddau Byw a hefyd i gael cefnogaeth i Dirweddau Byw ymhlith Aelodau'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru. Ef oedd cynrychiolydd Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL) ar Gomisiwn Newid Hinsawdd Cymru a Grŵp Llywio UK NEA ac arferai fod yn Gadeirydd Grŵp Eirioli WEL. Hefyd roedd ar Banel Cyllid Bioamrywiaeth Cymru ar gyfer Treth Dirlenwi WREN a SITA a hefyd ar banel Grantiau Amgylcheddol Bychain Llywodraeth Cymru. Roedd yn aelod o Weithgorau Datblygu Cynaliadwy a Thwristiaeth Bywyd Gwyllt 'Croeso Cymru', gan weithio ochr yn ochr â 'Croeso Cymru' i hybu Twristiaeth Bywyd Gwyllt.

Cyn gweithio gydag Ymddiriedolaethau Natur Cymru, roedd James yn Uwch Swyddog Cadwraeth gydag RSPB Cymru, yn Ecolegydd Sirol gyda Chynghorau Sir a Dinas Henffordd a Bryste, yn Uwch Ecolegydd gyda Cresswell Associates ac yn Swyddog CGBLl gydag Ymddiriedolaeth Natur Sir Gaerloyw.

**Kylie Jones Mattock**
Gyda thair blynedd ar ddeg o brofiad o weithio a gwirfoddoli yng nghefn gwlad ac yn y sector cadwraeth, ers 2010 mae Kylie wedi bod yn Rheolwr Safle ar gyfer Ymddiriedolaeth y Coetiroedd, yn gyfrifol am bob agwedd ar stad yr Ymddiriedolaeth yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.

**Matthew Quinn**
Matthew Quinn yw'r Cyfarwyddwr ar gyfer yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn yr Adran ar gyfer yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn Llywodraeth Cymru. Mae ei gyfrifoldebau'n cynnwys gwarchodaeth amgylcheddol, byd natur, effeithlonrwydd adnoddau, dŵr, llifogydd a datblygu cynaliadwy. Arweiniodd y gwaith o sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Dechreuodd Matthew ar ei yrfa fel gwas sifil yn 1986 yn Adran yr Amgylchedd yn Llundain ac yn 1990 arweiniodd ran o'r tîm a gynhyrchodd Bapur Gwyn cyntaf y DU ar yr Amgylchedd, *This Common Inheritance*. Cyn dod i Gymru yn 1998, roedd yn Gyfarwyddwr yn Swyddfa'r Llywodraeth ar gyfer y De Orllewin.

**Matthew Roberts**



Mat Roberts yw Cyfarwyddwr Grŵp Strategaeth Cynaliadwyedd Interserve PLC. Mae'n arwain ar ddatblygu Cynllun SustainAbilities Interserve gyda ffocws penodol ar gyfalaf cymdeithasol a naturiol. Cyn ymuno ag Interserve roedd yn Bennaeth Cynaliadwyedd gyda Landmarc Support Services, menter ar y cyd gan Interserve.

Mae Mat yn gynghorydd i Lwyfan Busnes @ Bioamrywiaeth yr UE, yn Ymddiriedolwr gyda Chronfa Cefn Gwlad y Tywysogion, yn Gyfarwyddwr Anweithredol ar Cynnal Cymru Sustain Wales a Chymdeithas Genedlaethol yr AHNE ac yn gymrawd gyda'r RSA.

Pan nad yw'n gweithio neu'n bod yn dad ac yn ŵr, mae'n mwynhau beicio, hwylio a cherdded mynyddoedd.

**Am Interserve**
Interserve yw un o gwmnïau gwasanaethau cefnogi ac adeiladu mwyaf blaenllaw y byd. Ein gweledigaeth ni yw ailddiffinio'r dyfodol ar gyfer pobl a llefydd. Mae popeth rydym yn ei wneud yn cael ei ddylanwadu gan ein gwerthoedd craidd. Rydym yn fusnes rhyngwladol llwyddiannus sy'n ehangu: yn arweinydd mewn canlyniadau arloesol a chynaliadwy ar gyfer ein cleientiaid ac yn lle gwych i weithio ynddo i'n pobl. Rydym yn cynnig cyngor, cynllunio, adeiladu, offer, rheoli cyfleusterau a gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen. Mae ein pencadlys yn y DU ac rydym yn rhan o fynegai'r FTSE 250. Mae gennym refeniw gros o £3.4 biliwn a gweithlu o fwy nag 80,000 o bobl yn fyd-eang. Gwefan: www.interserve.com.
Am yr holl newyddion dilynwch: @interservenews

**Mike Palmer**
Ar hyn o bryd mae Mike yn gweithio yn Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, rôl newydd mewn adran newydd, ond dechreuodd ar ei yrfa fel coedwigwr dan hyfforddiant yn yr Alban. Ar ôl mynd i'r Brifysgol, daeth yn llyfrgellydd yn gyfrifol am nifer o lyfrgelloedd cymunedol ac yn 1990 dechreuodd ymwneud ag achub ac adfer ar ôl y Llifogydd yng Ngogledd Cymru. Mae'r profiadau hyn wedi dylanwadu ar ei ffordd o feddwl am wasanaethau cyhoeddus a beth allant ei gyflawni, a'u cyfyngiadau. Wedyn treuliodd ddegawd yn y trydydd sector, yn gweithio gyda phobl ac yn datblygu ac yn hybu cyfranogiad y cyhoedd. Trefnodd fforwm y trydydd sector fel sail i Gynllun Datblygu Cynaliadwy'r Cynulliad 1af. Dilynwyd hyn gan gyfnod gyda Gwasanaeth Archwilio Gwerth Gorau'r Comisiwn Archwilio, a ddaeth yn rhan o Swyddfa Archwilio Cymru yn y diwedd. Tra oedd yno arweiniodd adolygiad o ddatblygiad cynaliadwy yn holl awdurdodau unedol Cymru ac, yn ddiweddarach, adolygiad o ddatblygu cynaliadwy a Gwneud Penderfyniadau Busnes yn Llywodraeth Cymru.

**Nigel Douglas**
Mae Nigel wedi gweithio fel Swyddog Adfer Coetiroedd Hynafol gydag Ymddiriedolaeth y Coetiroedd yng Nghlwyd ers mis Ionawr 2015. Cyn hynny bu'n gweithio yng Nghanada am 12 mlynedd, i Gymdeithas Diffeithdir Alberta, ble mae'r coed yn fwy ac yn fwy unffurf ac yn llawnach o bethau fyddai'n hoffi eich bwyta. Hefyd bu'n gweithio am saith mlynedd yn rheoli gwarchodfeydd natur ar gyfer yr RSPB.

**Phillippa Pearson**
Mae Dr Phillippa Pearson yn Rheolwr Dalgylch gyda Dŵr Cymru Welsh Water ac mae'n gyfrifol am ddatblygu a chyflwyno Rhaglen Dalgylch *WaterSource*. Ymunodd Phillippa â'r diwydiant dŵr yn 2003 ar ôl cwblhau ei PhD mewn Geomorffoleg Afonol ym Mhrifysgol Aberystwyth. Yn wreiddiol gweithiodd gyda Severn Trent Water cyn symud at Dŵr Cymru yn 2006 ac mae wedi dal swyddi gweithredol mewn Cynhyrchu a Dosbarthu Dŵr cyn symud i'w rôl bresennol i sefydlu Tîm Dalgylch ar gyfer Dŵr Cymru yn 2011. Mae Phillippa yn gynrychiolydd diwydiant gyda'r 'Clwb Ymchwil ac Arloesi Amaethyddol Cynaliadwy' (SARIC) NERC a BBSRC ac yn Wyddonydd Siartredig ac Amgylcheddwr Siartredig.

**Sarah Williams**
Dr Sarah Williams, Rheolwr, Grŵp Cyfoeth Naturiol ac Ecosystemau, Cyfoeth Naturiol Cymru.



Daearyddwr gyda 25 mlynedd o brofiad yn gweithio yn yr amgylchedd yn y sector cyhoeddus, ac ym maes ymgynghori ac academia. Ar hyn o bryd mae Sarah yn arwain Rhaglen Trawsnewid SMNR yn CNC. Mae gan Sarah brofiad helaeth o reoli cyfoeth naturiol, yn enwedig yn y sectorau dŵr ac amaethyddol a datblygu dulliau ymarferol o ddatrys problemau polisïau amgylcheddol. Yn gweithio yn y Gyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Chaniatáu, mae Sarah yn arwain rhaglen sy'n dod â staff o bob rhan o CNC at ei gilydd i ddatblygu dulliau ymarferol o weithredu SMNR a'r dyletswyddau newydd i CNC yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

**Sue Burton**
Mae Sue Burton wedi gweithio i'r grŵp awdurdodau perthnasol ar gyfer ACA Forol Sir Benfro am 16 o flynyddoedd. Cyn hynny treuliodd fwy o amser allan o'r swyddfa ac o dan y môr, gan gynnwys arolygon deifio ledled y DU ac yn gweithio i GNF Sgomer. Graddiodd mewn bioleg y môr o Brifysgol Bangor a gydag MSc mewn Datblygu a Gwarchod Adnoddau Morol. Mae Sue yn mwynhau'r amrywiaeth a'r heriau sy'n gysylltiedig â gwaith cadwraeth forol.

## Rhestr o'r Cynadleddwyr Cofrestredig

| Enw Cyntaf | Cyfenw | Cwmni |
|---|---|---|
| Nigel | Ajax-Lewis | Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru |
| Nick | Bialynicki-Birula | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Simon | Bilsborough | Llywodraeth Cymru |
| Leanne | Bird | Cyngor Sir Ceredigion |
| Sarah | Bird | Sŵ Caer |
| Stephen | Bladwell | RSPB Cymru |
| Siôn | Brackenbury | Commons Vision |
| Paul | Brazier | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Emma | Broad | Cyngor Wrecsam |
| Sue | Burton | RAG ACA Forol Sir Benfro |
| Anne | Butler | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Jennifer | Butler | Promar International |
| James | Byrne | Ymddiriedolaethau Natur Cymru |
| Mandy | Cartwright | Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ymlusgiaid ac Amffibiaid |
| Imogen | Cavadino | TCV / Amgueddfa Genedlaethol Cymru |
| Jas | Chanay | Wedi Ymddeol |
| Colin | Cheesman | Plantlife Cymru |
| Keith | Cowieson | SongBird Survival |
| David | Cowley | CS Ynys Môn |
| Dan | Crook | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Amanda | Davies | Cyngor Sir y Fflint |
| Ceirios | Davies | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Howard | Davies | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Keith | Davies | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Nerys | Davies | Cyngor Gwynedd |
| Emmanuel | Deschamps | Network Rail |
| Clare | Dinham | Buglife |
| Emma | Douglas | PONT |
| Nigel | Douglas | Ymddiriedolaeth y Coetiroedd |
| Catherine | Duigan | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Christine | Edwards | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Anna | Egerton | Prifysgol Bangor |
| Chloe | Elding | Ymddiriedolaethau Natur Cymru |
| Russell | Elliott | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Matt | Ellis | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Sue | Evans | Am Gymru Ltd / Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adar Hela a Bywyd Gwyllt |
| Leasa | Fielding | Llywodraeth Cymru |
| Emily | Finney | Llywodraeth Cymru |
| Peter | Frost | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Paul | Furnborough | Bywyd Gwyllt Gogledd Ddwyrain Cymru |
| Mark | Gahan | Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol |
| Heather | Galliford | RSPB Cymru |
| Jonathan | Garratt | Uned Gwenyn Genedlaethol |
| Daniel | Griffith | Y Dref Werdd |
| Bernard | Griffiths | UAC |

| | | |
|---|---|---|
| Bob | Griffiths | OPAL |
| Elinor | Gwynn | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| Justin | Hanson | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| John | Harold | Cymdeithas Eryri |
| Dai | Harris | Llywodraeth Cymru |
| John | Healey | Prifysgol Bangor |
| Zoe | Henderson | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Hannah | Henshaw | NatureSpy |
| Deb | Hill | Dinas a Sir Abertawe |
| Sifan | Hu | Gardd Fotaneg Genedlaethol Xishuangbanna |
| Catherine | Hughes | Am Gymru / Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adar Hela a Bywyd Gwyllt |
| Ian | Hughes | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Jayne | Hunt | Cymdeithas Perai a Seidr Cymru |
| Juliet | Hynes | Prosiect y Dyfrgi Prifysgol Caerdydd |
| Jill | Jackson | NMWTRA |
| Rhian | Jardine | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Alison | Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Huw | Jones | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Liz | Jones | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Rhianne | Jones | CLA Cymru |
| Rhys | Jones | Cyngor Gwynedd |
| Sarah | Jones | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Tim | Jones | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Kylie | Jones Mattock | Ymddiriedolaeth y Coetiroedd |
| Paul | Kay | Cymdeithas Cadwraeth Forol |
| Jennifer | Kelly | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Julia | Korn | PONT |
| Bleddyn | Lake | Cyfeillion y Ddaear Cymru |
| Sam | Langdon | SWWARG |
| Jim | Latham | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Barnaby | Letheren | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Rachel | Lewis-Davies | NFU Cymru |
| SHAN | Li | Gardd Fotaneg Fairylake |
| Twinkle | LIANG | Gardd Fotaneg Fairylake |
| Chen | Lin | WWF |
| Iolo | Lloyd | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Tracey | Lovering | Plantlife Cymru |
| Andrew | Lucas | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Hayley | MacDonald-Jones | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Lars | Markesteijn | Prifysgol Bangor |
| Mandy | Marsh | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| James | McConnell | NatureSpy |
| Fiona | McFarlane | Llywodraeth Cymru |
| Morag | McGrath | Wedi Ymddeol |
| Sean | McHugh | Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru |
| Emily | Meilleur | Cyngor Gwynedd |
| Andy | Middleton | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Jan | Miller | Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru |
| Clare | Morgan | Coed Cadw/Ymddiriedolaeth y Coetiroedd |
| Elizabeth | Mutch | Llais y Goedwig |

| | | |
|---|---|---|
| Liam | Olds | CBS Rhondda Cynon Taf / Amgueddfa Genedlaethol Cymru |
| Lee | Oliver | Cadwch Gymru’n Daclus |
| Phil | Oliver | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Tim | Orrell | Dinas a Sir Abertawe |
| Barbara | Owsianka | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Laura | Palmer | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Mike | Palmer | Llywodraeth Cymru |
| Phillippa | Pearson | Dŵr Cymru / Welsh Water |
| Kirthana | Pillay | Prifysgol Bangor |
| Matthew | Quinn | Llywodraeth Cymru |
| Geoff | Radford | Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru / Cofnod |
| Clare | Reed | Cymdeithas Cadwraeth Forol |
| Ivor | Rees | Dim |
| Jane | Rees | Dim |
| Diana | Reynolds | Llywodraeth Cymru |
| Dafydd | Roberts | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| Mari | Roberts | Ecolegydd ac Arolygwr Peillwyr Hunangyflogedig |
| Mat | Roberts | Interserve PLC |
| Ant | Rogers | Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro |
| Colin | Russell | WWBIC |
| Henry | Schofield | Ymddiriedolaeth Natur Vincent |
| Hannah | Serna | RSPB Cymru |
| Emma | Sharp | Cyngor Sir Ceredigion |
| Rebecca | Sharp | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Elwyn | Sharps | RSPB |
| Jenny | Shaw | Cymdeithas Ceidwaid Gwenyn Cymru |
| James | Skates | Llywodraeth Cymru |
| Sarah | Slater | Cyngor Sir y Fflint |
| Dick | Squires | PONT |
| Mathew | Stephens | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Katrina | Sutherland | Myfyriwr |
| Claire | Sweeney | Network Rail |
| Ray | Tangney | Amgueddfa Genedlaethol Cymru |
| Roy | Tapping | Cofnod |
| Rachel | Taylor | BTO (Ymddiriedolaeth Adareg Prydain) |
| Glenda | Thomas | FWAG |
| Ian | Thomas | Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru |
| Nick | Thomas | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| David | Thorpe | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Amy | Vanstone | RSPB |
| Andrew | Whitfield | Whitfield Ecological Services |
| Helen | Wilkinson | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Anna | Williams | Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru |
| Arwel | Williams | Llywodraeth Cymru |
| Linda | Williams | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Sarah | Williams | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Tomos | Williams | NatureSpy |

| | | |
|---|---|---|
| Michael | Wilson | Amgueddfa Genedlaethol Cymru |
| Sarah | Wood | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Holly | York | Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru |

## Rhestr o Arddangoswyr

Roedd gan y sefydliadau canlynol stondinau arddangos yn y Neuadd Arddangos:

Action for Pollinators
Buglife
Prosiect y Dyfrgi Prifysgol Caerdydd (‘Colin y Dyfrgi!’)
Cofnod
Marine Conservation Society UK
Cyfoeth Naturiol Cymru
Network Rail
OPAL
Plantlife Cymru
PONT Cymru
Ymddiriedolaeth y Coetiroedd
Ymddiriedolaethau Natur Cymru